Cydraddoldeb:
Rheoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau

FERSIWN 01 – MEHEFIN 2021

Cynnwys

Crynodeb 3
Adran 1 - Cyflwyniad
1.1 Trosolwg 3
1.2 Cefndir 4
1.3 Ein dyletswydd o ran cydraddoldebau 4
1.4 Cydraddoldebau yn ein gwaith rheoleiddio 5
Adran 2 - Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, UG a Safon Uwch)
2.1 Haf 2020 6
2.1.1 Datblygu'r dull amgen ar gyfer haf 2020 6
2.1.2 Ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer haf 2020 7
2.1.3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer haf 2020 8
2.1.4 Newid yn y polisi ar gyfer haf 2020 8
2.1.5 Rhyddhau ystadegau ar ôl diwrnodau canlyniadau Awst 2020 8
2.1.6 Cymwysterau o dan y chwyddwydr - ar ôl haf 2020 9
2.2 Haf 2021
2.2.1 Y dull yr ydym yn ei gynllunio - Addasiadau i asesiadau yn haf 2021 10
2.2.2 Cynllunio wrth gefn pellach ar gyfer haf 2021 11
2.2.3 Argymhellion adroddiad interim yr Adolygiad Annibynnol 11
2.2.4 Canslo arholiadau yn haf 2021 12
2.2.5 Dull y Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn haf 2021 13
2.2.6 Cydraddoldebau yn ein cyfathrebu a'n hymgysylltu ar gyfer haf 2021 15
2.2.6.1 Is-grŵp Cydraddoldebau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni 15
2.2.6.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn haf 2021 15
2.2.7 Ein gwaith i gefnogi athrawon a chanolfannau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 17
2.2.8 Ymgeiswyr Preifat 18
2.2.9 Apeliadau 19
Adran 3 - Cymwysterau galwedigaethol
3.1 Trosolwg 20
3.2 Gwanwyn a haf 2020: Y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig 20
3.2.1 Datblygu'r dull amgen ar gyfer gwanwyn a haf 2020 20
3.2.2 Sut yr ystyriwyd effaith trefniadau ar gydraddoldebau 20
3.2.3 Effaith penderfyniadau a wnaed ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch 21
3.3 Haf a hydref 2020: Y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig 22
3.3.1 Ymestyn trefniadau amgen i 2020/21 22

3.4 2021: Fframwaith Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol 24
3.4.1 Cynllunio ar gyfer dyfarnu yn 2021: Cymwysterau Galwedigaethol cymeradwy 24
3.4.2 Datblygu dull ar gyfer yr holl Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru 24
3.4.3 Effaith trefniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch 25
3.4.4 Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn 2021 26
Adran 4 - Edrych ymlaen
4.1 Monitro, dadansoddi a gwerthuso effaith trefniadau amgen 2021 ar gydraddoldebau 26
4.1.1 Monitro cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Chymwysterau Galwedigaethol 26
4.1.2 Gwerthuso 27
4.2 Cyfathrebu ac ymgysylltu 28
4.3 Gweithio gyda dysgwyr 28
4.4 Cyfres haf 2022 29
Adran 5 - Atodiadau
A - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau 30
B - Digwyddiadau allweddol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, UG a Safon Uwch) 48
C - Digwyddiadau allweddol ar gyfer Cymwyserau Galwedigaethol 50

Crynodeb

1. Bu'r pandemig COVID-19 yn arwain at drefniadau asesu amgen ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol ar gyfer dwy gyfres o arholiadau haf yn olynol. Cafodd cyfres arholiadau haf 2020 ei chanslo fis Mawrth 2020 a chafodd y trefniadau amgen eu cynllunio a'u gweithredu'n gyflym ac roedd yr opsiynau a oedd ar gael yn gyfyngedig. Dechreuodd y cynllunio wrth gefn ar gyfer haf 2021 fis Ebrill 2020 ac mae wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl. Yn y pen draw, oherwydd effaith barhaus COVID-19 ar addysg ym mlwyddyn academaidd 2020/21, yr unig ddull ymarferol o liniaru'r tarfu ar ddysgu fu i ganolfannau bennu graddau o fewn model hyblyg sy'n cydbwyso tystiolaeth asesu ynghyd â barn broffesiynol.
2. Mae'r trefniadau amgen ar gyfer haf 2021 yn caniatáu i ddysgwyr ennill cymwysterau a gwneud cynnydd. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r trefniadau hyn, ystyriwyd effaith y trefniadau yn unol â thegwch i ddysgwyr, rhwyddineb y broses, hyder cyhoeddus a safonau cenedlaethol. Rydym wedi ceisio lliniaru'r risgiau hyn lle'n bosibl.
3. Ein blaenoriaeth oedd datblygu dull sydd mor deg â phosibl i bob dysgwr. Ni all cymwysterau ynddynt eu hunain fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn cymdeithas, ond rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i'w hatal rhag ychwanegu anfantais neu waethygu'r anfanteision presennol.
4. Mae'r tarfu ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb wedi effeithio ar ddysgwyr mewn ffordd wahanol. Fel yr amlinellir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau (Atodiad A), mae'n bosibl y gallai'r tarfu hwn fod wedi effeithio'n fwy negyddol ar rai dysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, nag eraill. Er nad yw'r trefniadau a roddwyd ar waith wedi'u bwriadu i wahaniaethu yn erbyn y dysgwyr hyn, nid yw'n bosibl i drefniadau asesu cymwysterau fynd i'r afael â neu ddatrys anfantais a achosir gan ffactorau eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl bod rhai dysgwyr wedi cael mynediad mwy cyfyngedig at adnoddau ar-lein neu lefelau is o ymgysylltu a chymorth wrth ddysgu gartref o'i gymharu â dysgwyr eraill. Gallai hyn gael effaith ar eu canlyniadau yn ystod haf 2021. Byddwn yn gwerthuso canlyniadau haf 2021 i ystyried a yw'r bylchau cyrhaeddiad yn wahanol i'r rhai a welir mewn blwyddyn arferol. Os gwelir newidiadau, efallai na fydd yn bosibl pennu achos(ion) y newidiadau hyn yn hyderus, o ystyried yr ystod o ffactorau posibl a'r lefel anarferol o ymwahanu ym mhrofiadau dysgwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Adran 1 - Cyflwyniad

1.1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut mae Cymwysterau Cymru wedi ystyried materion cydraddoldeb fel rhan o'n hymateb i reoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau. Er ei bod yn amlinellu'n fyr ein gwaith rheoleiddio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn unrhyw flwyddyn 'arferol', mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ein gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â chydraddoldebau ers dechrau'r pandemig.

Mae'r ddogfen hon yn ategu ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, lle rydym yn adrodd ar ein gweithgaredd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb strategol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cymru 2011. Cyhoeddir hwn yn haf 2021.

1.2. Cefndir

Mae tegwch i bawb yn ystyriaeth graidd yn ein g waith. Ni all cymwysterau ynddynt eu hunain fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn cymdeithas, ond rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i'w hatal rhag ychwanegu anfantais neu waethygu'r anfanteision presennol.

Yn 2020 a 2021, arweiniodd y pandemig at gau canolfannau arholi[1] a chanslo arholiadau ac asesiadau eraill ledled y DU. Mae wedi cael effaith sylweddol ar bob cymhwyster, cymwysterau cyffredinol (TGAU, UG a Safon Uwch) a chymwysterau galwedigaethol. Mae dulliau asesu amgen a roddwyd ar waith o haf 2020 wedi ceisio lleihau effaith y pandemig ar ddysgwyr oedd i fod i gwblhau cymwysterau a, lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, wedi ceisio galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu i gyflogaeth. Rydym wedi canolbwyntio ar hyrwyddo tegwch i'r holl ddysgwyr wrth i ni ddatblygu trefniadau asesu amgen. Mae'r dull a gymerwyd wedi ceisio lleihau'r effaith negyddol ar ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r dulliau a gymerwyd yn deillio o reidrwydd ac yn aml maent yn wahanol i'r trefniadau asesu a oedd ar waith cyn y pandemig. Er eu bod wedi darparu dull amgen ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod amgylchiadau digynsail, nid ydynt heb heriau.

1.3. Ein dyletswydd o ran cydraddoldebau

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru, gyda ffocws ar gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus.

Mae gennym gyfrifoldeb i edrych ar draws y system gymwysterau i wneud yn siŵr ei bod yn gweithio er budd pob dysgwr, ac i weithredu neu gynghori eraill i wneud yr un peth, os oes angen. Rydym yn amddiffyn gwerth cymwysterau, yn sicrhau eu bod yn cael eu dyfarnu'n deg, ac yn eu hadolygu a'u datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid.

Fel corff cyhoeddus, wrth gyflawni ein swyddogaethau mae'n ddyletswydd arnom o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), i roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

1. dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf

[1] Ysgol neu goleg neu sefydliadau addysgol eraill

2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni adrodd ar ein gweithgaredd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb yn flynyddol. Y gwaith a amlinellir yn y ddogfen hon yw gweithgarwch sy'n cefnogi ein hamcan 'Caiff cymwysterau a reoleiddir eu cynllunio a'u hasesu mewn ffordd sy'n deg i bob dysgwr'.

Cyhoeddwyd ein hamcanion cydraddoldeb strategol cyfredol ym mis Mai 2019. Eu pwrpas yw cryfhau ein perfformiad mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae ein hamcanion cydraddoldeb rheoleiddiol wedi'u hanelu at hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol. Rydym yn bodloni'r amcanion cydraddoldeb hyn trwy ein gwaith rheoleiddio a thrwy ein cyfathrebu a'n hymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Gellir gweld ein hamcanion cydraddoldeb a mwy o wybodaeth am ein gwaith sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn ein Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar ein gwefan.

Er nad yw Cymwysterau Cymru ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) rydym o'r farn bod ein rôl yn cefnogi ei phwrpas a bod ei gofynion yn gydnaws â'r ffordd yr ydym yn gweithio. Felly, rydym wedi mabwysiadu ei darpariaethau'n wirfoddol i danategu sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ac rydym wedi ceisio cynyddu ein cyfraniad at y saith nod llesiant a gosod a chyhoeddi amcanion ategol, gan adrodd ar gynnydd yn flynyddol. Mae cyflawni ein hamcanion rheoleiddio yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn uniongyrchol, gan sicrhau bod cymwysterau'n cadw eu gwerth dros amser ac yn parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cynnydd ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Medi 2020.

1.4. Cydraddoldebau yn ein gwaith rheoleiddio

Mae effeithiau ar gydraddoldeb yn cael eu hystyried, eu monitro a'u lliniaru fel rhan o'n gwaith rheoleiddio. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb trwy ein Amodau Cydnabod Safonol ac rydym yn cefnogi cyrff dyfarnu drwy ddarparu dogfennau canllaw fel Mynediad Teg trwy Ddylunio, sy'n nodi ffyrdd o ymdrin â hygyrchedd o fewn dylunio asesu cymwysterau.

Rydym yn monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n rheolau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, fel y nodwyd yn ein Amodau Cydnabod Safonol. Y rhain yw bod yn rhaid i gymwysterau fod yn addas at y diben, sy'n cynnwys eu bod yn lleihau rhagfarn, a'u bod yn hygyrch i ddysgwyr. Mae hyn yn golygu na ddylai arholiadau nac asesiadau gynnwys rhwystrau diangen neu amhriodol sy'n atal dysgwr rhag dangos y wybodaeth, y sgiliau a/neu'r ddealltwriaeth ofynnol.

Rydym hefyd yn gofyn bod gan gyrff dyfarnu weithdrefnau priodol ar gyfer cymhwyso addasiadau rhesymol yn eu cymwysterau ar gyfer dysgwyr ag anableddau, megis caniatáu

amser ychwanegol i ddysgwr gwblhau asesiad neu ddarparu papurau cwestiynau wedi'u haddasu mewn maint ffont mwy neu mewn braille.

Yng Nghymru, darperir yr holl gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo[2] ar hyn o bryd gan y corff dyfarnu, CBAC. Darperir cymwysterau galwedigaethol cymeradwy gan CBAC a City & Guilds, a hefyd EAL o fis Medi 2021. Mae CBAC, City & Guilds, Pearson ac Agored Cymru yn dyfarnu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, sydd hefyd wedi'u cymeradwyo. Fel y rheoleiddiwr yng Nghymru, rydym yn ei gwneud yn ofynnol gyrff dyfarnu ddatblygu a darparu cymwysterau sy'n mesur gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwr yn iawn. Rhaid i'w hasesiadau wahaniaethu rhwng dysgwyr ar sail eu cyrhaeddiad mewn asesiadau. Mae gofynion rheoliadol arbennig wedi'u rhoi ar waith i ganiatáu dyfarnu cymwysterau mewn amgylchiadau eithriadol yn haf 2020 a haf 2021.

Ynghyd â rheoleiddwyr cymwysterau eraill y DU, rydym yn aelodau gweithredol o'r Fforwm Ymgynghori ynghylch Mynediad.[3] Mae'r grŵp hwn yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn i ystyried materion sy'n effeithio ar hygyrchedd cymwysterau ac asesiadau ar gyfer dysgwyr ag anabledd sy'n cymryd cymwysterau rheoleiddiedig unrhyw le yn y DU a/neu Brofion Cenedlaethol yn Lloegr.

Fel rhan o'n gwaith i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus rydym yn cwblhau Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb i fod yn sail i benderfyniadau polisi allweddol a allai gael effaith sylweddol ar wahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu hymgorffori mewn Asesiadau Effaith Integredig. Wrth wraidd ein holl ystyriaethau mae tegwch i bob dysgwr, p'un a ydynt yn rhannu'r nodweddion gwarchodedig penodol hyn ai peidio.

Adran 2 - Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, UG a Safon Uwch)

2.1 Haf 2020

2.1.1 Datblygu'r dull amgen ar gyfer haf 2020

Ym mis Mawrth 2020, wrth i'r pandemig gydio, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai arholiadau haf 2020 yn cael eu canslo ac y dylai dysgwyr yng Nghymru dderbyn graddau wedi'u cyfrifo.

Buom yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr mewn awdurdodaethau eraill, CBAC a chyrff dyfarnu yn y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), i ystyried dulliau o ddarparu graddau cymwysterau yn absenoldeb yr asesiadau a'r arholiadau arferol. Dau o'r nodau allweddol oedd datblygu dull o ddyfarnu graddau a oedd mor deg â phosibl i bob dysgwr, wrth geisio rheoli safonau cenedlaethol. Roedd yn rhaid datblygu cynlluniau yn gyflym ac roedd yr amserlen dynn a'r cyd-destun yr oedd pawb yn gweithio ynddo yn cyfyngu ar yr hyn y gellid ei roi ar waith.

[2]Mae cymwysterau cymeradwy yn gymwysterau rheoledig sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ac a Gymeradwywyd o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, a ddyfernir yng Nghymru ac sydd wedi bodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo.

[3] Access Consultation Forum - terms of reference - GOV.UK (www.gov.uk)

O gyfnod cynnar datblygiad y dull asesu amgen, nodwyd mai'r opsiwn tecaf a mwyaf hylaw fyddai gofyn i ganolfannau roi graddau i ddysgwyr (Graddau Asesu Canolfannau) a chael proses i'w safoni, i gyfrif am wahaniaethau lleol wrth gymhwyso safonau cenedlaethol. Gan gydnabod y byddai graddau'n seiliedig ar ragfynegiad o'r hyn y byddai dysgwyr wedi'i gyflawni mewn arholiadau, ond heb y dystiolaeth asesu gysylltiedig a arholiadau, teimlid hefyd y byddai safoni yn helpu i osgoi rhagfarn a allai arwain yn ddamcaniaethol at y mathau hynny o benderfyniadau graddio o dan yr amgylchiadau. Roedd yr opsiwn hwn hefyd yn cael ei ffafrio gan reoleiddwyr mewn awdurdodaethau eraill yn y DU.

2.1.2 Ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer haf 2020

Wrth ddatblygu'r dull amgen ar gyfer haf 2020, gwnaethom ymgynghori ar agweddau allweddol y trefniadau arfaethedig. Yn ein hymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer haf 2020 rhoesom gyfle i ymatebwyr wneud sylwadau ar ein Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldebau. Dangosodd canfyddiadau'r ymgynghoriad fod yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn gynhwysfawr ar y cyfan ond roedd rhai pryderon ynghylch effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol. Fe wnaethom ymdrin â hyn yn uniongyrchol ar dudalennau 48-50 ein Penderfyniadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad.

Cawsom 4057 o ymatebion i gyd i'n hymgynghoriad ynghylch trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020, gan gynnwys gan sefydliadau rhanddeiliaid allweddol fel Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) Cymru. Fe wnaethom ddarparu ymateb ffurfiol i Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ym mis Mai 2020.

Roedd ein Hadroddiad Penderfyniadau ynghylch yr Ymgynghoriad yn cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau terfynol a oedd yn sail i'n penderfyniadau. Yn dilyn y penderfyniadau am yr ymgynghoriad, datblygodd CBAC fodelau safoni y gwnaethom eu hystyried a'u cymeradwyo. Ystyriwyd a fyddai unrhyw grŵp neu grwpiau penodol o ddysgwyr dan anfantais neu y byddai rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn gan y model ar bob cam o'i ddatblygiad. Arweiniodd hyn at ddefnyddio gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol gymwysterau, er mwyn cyflawni'r atebion tecaf. Gweler y Trefniadau safoni ar gyfer haf 2020 yng Nghymru i gael mwy o wybodaeth.

Gwnaethom hefyd ymgynghori ar newidiadau i'r broses apelio a phenderfynwyd ar broses symlach a oedd yn caniatáu i CBAC nodi a chywiro'n gyflym unrhyw wallau amlwg yn y ffordd yr oedd graddau a oedd wedi'u cyfrifo wedi'u cynhyrchu. Roedd y seiliau dros apelio yn canolbwyntio ar gamgymeriadau gweinyddol a gweithdrefnol ar lefel canolfan neu CBAC ac roedd darpariaeth hefyd i ddysgwyr godi pryderon yn ymwneud â rhagfarn a gwahaniaethu. Roedd hyn yn bwysig gan fod rhai o'r pryderon a rannwyd am y graddau ar gyfer dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â phryderon ynghylch rhagfarn ddiarwybod a gwahaniaethu. Yn y lle cyntaf, cynghorwyd dysgwyr i ofyn i'w canolfan wirio a wnaethant gamgymeriad wrth gynhyrchu eu gradd. Mewn achosion lle nad oedd hynny'n briodol o bosibl, neu lle na ddaeth eu canolfan o hyd i gamgymeriad, gallai dysgwyr drosglwyddo tystiolaeth o'r hyn yr oeddent yn credu oedd yn ragfarn neu'n wahaniaethu ymlaen i CBAC, a allai wedyn benderfynu ymchwilio i'r mater fel camymddwyn honedig gan y ganolfan. Cyfathrebwyd hyn i ddysgwyr yn ein Canllaw i ddysgwyr: apeliadau, a chwynion ynghylch camymddwyn a chamweinyddu.

Yn benodol ar gyfer ymgeiswyr preifat, yn dilyn ymgynghoriad, roeddem yn caniatáu i raddau gael eu cyfrifo ar gyfer y rhai a oedd wedi sefyll rhywfaint o'r cymhwyster mewn cyfres gynharach, ond nad oedd eu canolfan gofrestru yn gallu nodi gradd asesu canolfan a threfn restrol ar eu cyfer. Defnyddiwyd dull tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr nad oeddent yn gallu sefyll pob arholiad oherwydd salwch neu resymau eithriadol eraill. Roedd y broses hon yn ei gwneud yn bosib dyfarnu graddau i gynifer o ymgeiswyr preifat â phosib, ac yn galluogi eu dilyniant i yrfaoedd neu addysg bellach lle na fyddai hyn wedi bod yn bosibl fel arall. Roedd nifer fach o ymgeiswyr preifat o hyd nad oeddent yn gymwys ar gyfer y dull hwn. Amlinellwyd hyn yn ein Datganiad polisi ymgeiswyr preifat.

2.1.3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer haf 2020

Yn ogystal ag ystyried ymatebion yr ymgynghoriad wrth ddatblygu ein model amgen ar gyfer haf 2020, gwnaethom ymgysylltu ag amryw o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys ein Grŵp Cyfeirio Penaethiaid, y grŵp Undebau Llafur a Sefydliadau Cynrychioliadol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Consortia Rhanbarthol a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru. Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiadau eraill, megis gweminar ar gyfer ystod o grwpiau rhanddeiliaid yn ymwneud â chydraddoldebau lle rhoddodd fynychwyr gan gynnwys Cyngor Hil Cymru, Dinasyddion Cymru a Thîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chefnogaeth Ieuenctid Cymru adborth ar ein cynigion. Gwnaethom gyhoeddi pecyn Dysgwyr lle gwnaethom gyfeirio dysgwyr at y Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi ar Gydraddoldeb (EASS), gwasanaeth cynghori annibynnol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar wahaniaethu a hawliau dynol.

2.1.4 Newid yn y polisi ar gyfer haf 2020

Yn dilyn diwrnod canlyniadau Safon Uwch, newidiodd Lloegr a'r Alban eu penderfyniadau polisi, a dyfarnwyd y Graddau Asesu Canolfannau gwreiddiol yn hytrach na'r graddau safonedig. Arweiniodd y newid hwn at newid yn sefyllfa polisi Llywodraeth Cymru. Yn dilyn cyfarwyddyd Gweinidogol i ddyfarnu Graddau Asesu Canolfannau heb eu safoni, gwnaeth Cymwysterau Cymru hi'n ofynnol i CBAC roi eu Graddau Asesu Canolfannau i ddysgwyr ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, oni bai bod y radd a gyfrifwyd a gynhyrchwyd gan y model safoni, neu'r ganlyniad UG blaenorol (yn achos cymwysterau Safon Uwch), yn uwch.

2.1.5 Rhyddhau ystadegau ar ôl diwrnodau canlyniadau Awst 2020

Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o ganlyniadau Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch a throsolwg o ganlyniadau TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau CA4. Roedd y ddau adroddiad yn cynnwys dadansoddiad dechreuol o gydraddoldebau gan canolbwyntio ar sut roedd bylchau cyrhaeddiad cyffredinol yn cymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda dadansoddiad yn ôl cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, oedran, anghenion addysgol arbennig a rhywedd. Roedd yr adroddiadau'n cynnwys dadansoddiad o raddau safonedig, Graddau a Aseswyd gan Ganolfannau, a'r graddau terfynol a gyhoeddwyd (y cyfeirir atynt fel graddau diwygiedig). Cyfrannodd hyn at y gwerthusiad

cyfyngedig y llwyddom i'w wneud ar effaith y dull ar ddysgwyr o grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol.

Ar 29 Hydref, gwnaethom gyhoeddi datganiad ystadegau swyddogol a oedd yn darparu dadansoddiad o effaith ar gydraddoldebau manylach a oedd yn adeiladu ar y dadansoddiad dechreuol o gydraddoldebau a gyhoeddwyd gennym yn yr haf. Roedd y datganiad hwn hefyd yn ymateb i gais am wybodaeth bellach gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Gwnaethom gadarnhau ein canfyddiadau dechreuol bod graddau yn gyffredinol yn sylweddol uwch o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nododd yr adroddiad y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r gwahaniaethau mewn bylchau cyrhaeddiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan y gallai ffactorau dryslyd eraill fod wedi dylanwadu ar y rhain, megis y dewis o bynciau a chyrhaeddiad blaenorol nad oedd yn bosibl eu hystyried gyda'r data a oedd ar gael. Gan fod bylchau cyrhaeddiad yn aml yn amrywio yn ôl pwnc a hefyd o flwyddyn i flwyddyn, roedd yn amhosibl dod i'r casgliad bod anghydraddoldebau wedi bod yn ffactor.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y pwyntiau allweddol hyn:

- Yn y mwyafrif o bynciau, mae bylchau cyrhaeddiad rhwng y rhywiau wedi bod o blaid menywod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, roedd y bylchau cyrhaeddiad rhwng y rhywiau ar gyfer graddau (diwygiedig) 2020 yn tueddu i fod yn lletach (yn fwy o blaid merched) i'r graddau uchaf ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, ac yn gulach (yn llai o blaid merched) ar gyfer y graddau canol ar gyfer Safon Uwch. Ond nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc.
- Roedd y bylchau cyrhaeddiad o ran cymhwysedd am brydau ysgol am ddim ar gyfer graddau (diwygiedig) 2020 yn tueddu i fod yn lletach (yn fwy o blaid dysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) i'r graddau uchaf ar gyfer TGAU ac UG, ac yn gulach (yn llai o blaid dysgwyr nad oeddent yn gymwys am brydau ysgol am ddim) i'r graddau canol ar gyfer Safon Uwch, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ond nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc.
- Roedd y bylchau cyrhaeddiad o ran darpariaeth anghenion addysgol arbennig ar gyfer graddau (diwygiedig) 2020 yn tueddu i fod yn lletach (yn fwy o blaid dysgwyr heb ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig) i'r graddau uchaf ar gyfer TGAU ac UG, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ond nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc.
- Mae cymharu graddau (diwygiedig) 2020 â rhai 2019 yn ôl grŵp ethnig bras yn dangos cynnydd mewn canlyniadau ar gyfer pob grŵp ethnig bras i'r graddau uchel a chanolig ar gyfer pob math o gymhwyster.

2.1.6 Cymwysterau o dan y chwyddwydr - ar ôl haf 2020

Arweiniodd digwyddiadau'r haf at graffu dwys ar y system gymwysterau yng Nghymru; roedd hyn hefyd yn wir ledled y DU gyfan. Beirniadwyd Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC yn gyhoeddus am benderfyniadau a wnaed ynghylch trefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, a chafodd digwyddiadau'r haf effaith negyddol ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau. Ar 28 Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru

Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer 2021. Cyhoeddwyd adroddiad interim ar 29 Hydref 2020, ac adroddiad terfynol ar 22 Ionawr 2021. Roedd y ddau adroddiad yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o 2020 ac argymhellion ar gyfer 2021.

Mae'r pryderon a godwyd mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau yn haf 2020 wedi tynnu sylw at yr angen i ni fod yn fwy tryloyw yn ein gwaith, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â thegwch i ddysgwyr.

2.2 Haf 2021

2.2.1 Y dull yr ydym yn ei gynllunio - Addasiadau i asesiad yn haf 2021

O gyfnod mor gynnar ag Ebrill 2020, roedd yn amlwg y byddai COVID-19 yn parhau i gael effaith ar addysg ac asesu.

Roeddem yn gwybod bod dysgwyr a fyddai'n sefyll cymwysterau yn haf 2021 wedi profi tarfu parhaus ar eu dysgu o fis Mawrth 2020 felly fe wnaethom weithio gyda CBAC i ystyried y camau y gellid eu cymryd i leihau'r effaith barhaus i mewn i haf 2021. Roeddem yn gwybod bod y risg o darfu pellach ar addysgu ac asesu yn uchel ac y gallai cymwysterau a oedd yn cynnwys asesu sgiliau ymarferol fod yn fwy heriol i'w cyflawni pe bai cyfnodau clo neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus pellach. Roeddem hefyd yn ymwybodol y byddai'r amhariad ar ddysgu ac addysgu wyneb yn wyneb yn cael effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau o ddysgwyr.

Ar 3 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd i ni ynghylch ystyriaethau o ran cymwysterau cyffredinol ar gyfer 2021; i baratoi i arholiadau yn 2021 fynd ymlaen fel arfer, er gyda rhai addasiadau i roi ystyriaeth i unrhyw amser dysgu a fyddai'n cael ei golli. Ar ôl ystyried cyfarwyddyd polisi'r Gweinidog, yr aflonyddwch parhaus i addysgu a dysgu a'r safbwyntiau polisi a fu'n sail i'n trefniadau ar gyfer gwanwyn a haf 2020, gwnaethom benderfynu y dylid gwneud addasiadau i gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru. Gwnaethom strwythuro ein dull rheoleiddio ar gyfer 2021 o amgylch set o egwyddorion trosfwaol y dylai CBAC eu cymhwyso wrth addasu asesiadau, a gofynion manylach yr oedd rhaid i CBAC gydymffurfio â hwy wrth wneud yr addasiadau hynny. Roedd ein gofynion rheoliadol i gyrff dyfarnu gydymffurfio â gofynion hygyrchedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r cymwysterau wedi'u haddasu. Ar 15 Gorffennaf 2020, gwnaethom gyhoeddi ein Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 ac Amodau Arbennig ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 ac ysgrifennwyd llythyr at ganolfannau yn amlinellu'r dull gweithredu. Ailadroddodd y gofynion yr angen i CBAC sicrhau y dylai, wrth wneud unrhyw addasiadau i asesiadau, leihau rhagfarn, cyn belled ag y bo modd, yn ogystal â chydymffurfio â'n Amodau Safonol[4].

[4] Amod C2.3(h) (Trefniadau gyda Chanolfannau), Amod D2 (Hygyrchedd cymwysterau) ac Amod G6 (Trefniadau ar gyfer Addasiadau Rhesymol).

Fel sy'n ofynnol gennym ni, ymgynghorodd CBAC ag athrawon ar eu haddasiadau arfaethedig i gymwysterau cymeradwy. Ceisiai'r addasiadau gwtogi effaith yr amser addysgu a dysgu a gollwyd trwy leihau pwysau asesu a chynnal y gwaith o ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar draws cwricwlwm eang ac addas. Roedd hi hefyd yn bwysig nad oedd yr addasiadau yn rhoi anfantais na mantais i ddysgwyr mewn â'u cyfoedion oedd yn cymryd mathau eraill o gymwysterau neu mewn gwahanol awdurdodaethau, ac nad oedent yn tanseilio dilysrwydd, dibynadwyedd a hygrededd y cymwysterau yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Yn gyffredinol, cafodd addasiadau arfaethedig CBAC gefnogaeth eang.

Rhoddodd CBAC wybodaeth ac arweiniad manwl i ganolfannau, ar sail cymwysterau unigol, ar gyfer TGAU ar 21 Gorffennaf 2020 ac ar gyfer UG a Safon Uwch ar 6 Awst 2020. Gwnaeth CBAC hefyd addasiadau i gymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn unol â'n gofynion a chyfathrebwyd y rhain i ganolfannau ym mis Awst 2020.

2.2.2 Cynllunio wrth gefn pellach ar gyfer haf 2021

Fel rhan o'n cynllunio wrth gefn parhaus, gwnaethom ystyried ystod o opsiynau ar gyfer pob math o gymhwyster, yn amrywio o barhau gydag arholiadau a'r addasiadau i asesu, hyd at ddibynnu ar raddau a gynhyrchwyd gan ganolfannau yn dyfarnu graddau. Bu Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau, a oedd yn rhan o Asesiad Effaith Integredig (dyddiedig 29 Medi 2020), yn sail i benderfyniadau ar y dulliau mwyaf addas ar yr adeg honno trwy ystyried effaith bosibl amrywiaeth o opsiynau a senarios posibl.

Er nad oedd yn ofyniad statudol, fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom hefyd ystyried sut roedd ein dewis opsiwn ar gyfer pob math o gymhwyster yn effeithio ar erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Er enghraifft, cyn belled ag yr oedd modd, gwnaethom ymdrechu i sicrhau bod yr opsiwn a ffefrid yn anwahaniaethol (Erthygl 2) ac er budd gorau'r plentyn (Erthygl 3). Gwnaethom hefyd ystyried y ffordd orau y gallem sicrhau y gallai plant fynegi eu barn (Erthygl 12) a chyrchu gwybodaeth berthnasol a dibynadwy (Erthygl 17).

Ar 16 Hydref, gwnaethom roi cyngor i'r Gweinidog gydag argymhelliad y dylid dyfarnu graddau trwy gyfuniad o arholiadau ac asesu yn y dosbarth. Er bod y risg o darfu ar gyfres arholiadau genedlaethol, yn ogystal ag effaith aflonyddwch parhaus ar ddysgu wyneb yn wyneb yn uchel, yn ein barn ni byddai'r dull tecaf o ddyfarnu cymwysterau yn cadw rhywfaint o asesu trwy arholiadau cenedlaethol, nas gwelwyd o'r blaen, lle bo hynny'n bosibl. Er budd tegwch, roedd y cyngor ychydig yn wahanol i TGAU a Safon Uwch o ystyried y gwahanol ddefnyddiau o'r cymwysterau o ran dilyniant dysgwyr.

Roedd canslo arholiadau yn opsiwn yr oeddem wedi'i ddadansoddi ond nid hwn oedd y dull yr oeddem yn ei ffafrio ar y pryd hwn oherwydd ei fod yn cyflwyno risgiau posibl, gan gynnwys risgiau a oedd yn gysylltiedig â rheoli rhagfarn (gweler 2.2.4). Dyluniwyd y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy i'w hasesu yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy arholiad[5], ac nid oeddem yn ystyried ein bod eto ar y pwynt lle byddai effaith y pandemig wedi gwneud asesiadau wedi'u hamserlennu yn amhosibl.

[5] Eithriad - TGAU, safonau UG ac Uwch mewn Celf sydd i gyd trwy asesiad di-arholiad

2.2.3 Argymhellion adroddiad interim yr Adolygiad Annibynnol

Canolbwyntiodd yr argymhellion a gyhoeddwyd yn adroddiad interim yr Adolygiad Annibynnol ym mis Hydref ar flaenoriaethu anghenion dysgwyr, a thegwch iddynt, gan gynnwys y dylid cynnal asesiad gan leoliad addysgol dysgwr ac nid trwy gyfres arholiadau. Nodwyd rhai o risgiau'r dull argymelledig hwn yn yr adroddiad adolygu. Roedd y rhain yn cynnwys y risg i degwch dysgwyr, a oedd yn cydnabod y gallai rhai grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft 'y rhai o gefndir lleiafrif ethnig a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, dderbyn triniaeth lai ffafriol trwy asesiadau canolfan oherwydd rhagfarn anfwriadol gan athrawon.'[6] Awgrymodd yr adroddiad, gyda hyfforddiant a datblygiad effeithiol ar waith ar gyfer athrawon a darlithwyr, y gellid goresgyn y risg hon yn llwyddiannus. Roedd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o 'waith rhagorol oedd eisoes yn digwydd mewn Colegau Addysg Bellach (lle mae asesiadau darlithwyr yn gyffredin ar gyfer cymwysterau galwedigaethol) i gydnabod rhagfarn anfwriadol fel risg a rhoi hyfforddiant a mesurau eraill ar waith i'w leihau'[7]. Nododd yr adroddiad fod 'rhaid i gamau lliniaru o'r fath fod yn rhan allweddol o'r dull asesu ar gyfer 2021.'[8]

Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid sefydlu grŵp cynghori i ddatblygu cynigion ymarferol a allai gyflawni polisi'r Gweinidog Addysg ar gymwysterau yn 2021. Sefydlwyd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni gan y Gweinidog i gyflawni'r swyddogaeth hon.

2.2.4 Canslo arholiadau yn haf 2021

Oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus, gwnaeth y Gweinidog Addysg y penderfyniad ym mis Tachwedd i ganslo arholiadau haf 2021. Yn dilyn hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i'r perwyl hwn i Cymwysterau Cymru, gan gydnabod mai mater i ni fyddai cymryd a gweithredu'r penderfyniad terfynol ynghylch trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau'r haf ac unrhyw drefniadau asesu amgen. Er nad hwn oedd y dull a ffefrid gennym i ddechrau, roedd Bwrdd Cymwysterau Cymru yn cydnabod effaith lefel yr aflonyddwch o fewn canolfannau a'r amrywioldeb ym mhrofiadau dysgwyr ac o ganlyniad penderfynodd reoleiddio'r cymwysterau hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd.

Gweithiom ni, ynghyd â Llywodraeth Cymru, y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, CBAC a grwpiau rhanddeiliaid allweddol eraill gyda'n gilydd i ddatblygu dull er mwyn caniatáu i ddysgwyr yng Nghymru ennill cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 i symud ymlaen i ddysgu pellach neu i gyflogaeth. Fel rhan o'r broses hon o wneud penderfyniadau, mewn cyfarfodydd ar 10 Rhagfyr a 15 Rhagfyr, ystyriodd y Bwrdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddiweddaru[9], a oedd yn adlewyrchu datblygiadau mwy diweddar, i

[6] Tudalen 2 Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 i ddyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

[7] Tudalen 13 Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 i ddyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

[8] Tudalen 13 Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 i ddyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

[9] Diweddarwyd asesiadau o effaith ac asesiadau o effaith ar gydraddoldeb i adlewyrchu cynigion cyfredol ond arweiniodd natur newidiol y cynigion, ynghyd â llinellau amser byr iawn, at i'r dogfennau hyn ddod yn ddogfennau iteraidd, yn hytrach na fersiynau terfynol, absoliwt.

gefnogi eu penderfyniadau. Ar 15 Rhagfyr, trafododd y Bwrdd y risgiau a'r heriau niferus mewn perthynas â'r dull gweithredu, ond cytunodd na ellid dileu'r rhain o dan yr amgylchiadau eithriadol. Er budd gorau dysgwyr, penderfynodd y Bwrdd reoleiddio CBAC, ac felly cymeradwyodd TGAU, UG a Safon Uwch, yn unol â safbwynt polisi mabwysiedig y Gweinidog Addysg ac argymhellion y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni.

Rhannodd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni syniadau a meysydd consensws â'r Gweinidog ar 16 Rhagfyr, a oedd yn cynnig model tair colofn o asesu: asesiad di-arholiad (NEA), asesiad a reolir yn fewnol ac asesiad wedi'i osod a'i farcio'n allanol.

2.2.5 Dull y Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn haf 2021

Ddiwedd mis Rhagfyr 2020, cyflymodd yr ail don o heintiau COVID-19 yn gyflym a chyflwynwyd cyfyngiadau symud lefel rhybudd 4 dros gyfnod y Nadolig. Ar 4 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai canolfannau yn ailagor ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb yn dilyn gwyliau'r Nadolig.

Yng ngoleuni lefel yr aflonyddwch ar addysgu a dysgu a chwestiynau sylweddol ynghylch hyfywedd y dull tair colofn, buom yn gweithio gyda CBAC, y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a Llywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau amgen o asesu ar gyfer haf 2021. Roedd opsiynau yn cynnwys dysgwyr yn cwblhau asesiadau amgen yn y dosbarth a graddau yn cael eu cynhyrchu naill ai gan CBAC neu gan ganolfannau yn uniongyrchol, gyda rhai asesiadau safonol yn cael eu defnyddio a phrosesau sicrhau ansawdd ar waith. Archwiliwyd yr opsiynau hyn yn eang hefyd gydag amrywiol grwpiau rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Grŵp Cyfeirio Penaethiaid a'n grŵp Undebau Llafur a Sefydliadau Cynrychioliadol. Ar sail trafodaethau a gwaith pellach, cyflwynwyd cynigion diwygiedig gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni mewn llythyr at y Gweinidog lle cynigiwyd y dylai canolfannau bennu gradd briodol ar gyfer pob dysgwr ym mhob cymhwyster.

Ar 20 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y safbwynt polisi y byddai dysgwyr sy'n ymgymryd â TGAU, UG a Safon Uwch yn cael eu cymwysterau wedi'u dyfarnu trwy fodel Graddau a Bennir gan Ganolfannau, a fu'n golygu y byddai graddau'n cael eu pennu gan ganolfannau yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr.

Ar 18 a 19 Ionawr 2021, ystyriodd Bwrdd Cymwysterau Cymru gyfarwyddyd polisi disgwyliedig y Gweinidog yn seiliedig ar y cyngor iddi yn llythyr y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni. Fel rhan o'i broses benderfynu, defnyddiodd y Bwrdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb dros dro, a oedd yn ystyried effaith y dull a ffefrid gan y Grŵp Dylunio a Chyflawni. Yn dilyn cyhoeddiad polisi'r Gweinidog, ar 20 Ionawr 2021, ymrwymodd Cymwysterau Cymru yn gyhoeddus i:

1. newid rheoliadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yng Nghymru i ganiatáu ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau
2. gweithio gyda CBAC i roi fframwaith asesu ar waith i gefnogi canolfannau.

Yn ogystal, byddai CBAC yn datblygu ac yn gweithredu proses sicrhau ansawdd i gadarnhau bod canolfannau'n rhoi gweithdrefnau priodol ar waith.

Er bod ein Bwrdd wedi penderfynu rheoleiddio'r cymwysterau hyn yn unol â'r dull hwn, roeddem yn deall bod angen ystyried a lliniaru nifer o risgiau a phroblemau sylweddol, lle'r oedd hynny'n bosibl. Amlinellwyd y cyfyngiadau hyn i'r Gweinidog yn ymateb Cymwysterau Cymru ar 23 Chwefror 2021, ac roeddent yn cynnwys y risgiau a'r lliniaru'n ymwneud â rheoli rhagfarn:

- Mae hyblygrwydd y model yn caniatáu i athrawon a darlithwyr greu eu hasesiadau eu hunain. Fodd bynnag, mae angen sgiliau penodol i ddylunio deunyddiau asesu crynodol a ddefnyddir mewn cymwysterau tyngedfennol *(high-stakes)*. Mae peth pryder efallai na fydd asesiadau wedi'u cylunio'n ddigon da i ymdrin â materion cydraddoldeb. Er mwyn lliniaru'r risg hon, byddwn yn tynnu sylw canolfannau at ein canllawiau 'Mynediad Teg trwy Ddylunio', sydd fel arfer wedi'i fwriadu ar gyfer cyrff dyfarnu, a bydd CBAC yn darparu hyfforddiant ar ddylunio asesiadau. Yn ogystal, bydd CBAC yn darparu cyn-bapurau wedi'u haddasu i ganolfannau eu defnyddio naill ai fel asesiadau annibynnol neu i ddewis cwestiynau sydd wedi'u hasesu o ran cydraddoldeb.
- Mae tystiolaeth o Raddau a Aseswyd gan Ganolfannau a ddyfarnwyd yn haf 2020 yn dangos bod bylchau cyrhaeddiad annodweddiadol yn gysylltiedig â rhai nodweddion gwarchodedig. Gallai hyn gefnogi honiad bod rhagfarn yn bresennol yn y dyfarniadau hyn. Gellir sefydlu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o ragfarn ymwybodol ac anymwybodol, ond bydd yn rhaid i bob canolfan dderbyn cyfrifoldeb am ystyried materion cydraddoldebau a sicrhau bod ei dyletswydd o ran cydraddoldebau yn y sector cyhoeddus wedi'i chyflawni.
- Fel rheol mae gan arholiadau drefniadau penodol iawn sy'n caniatáu i ddysgwyr ag anghenion penodol gael mynediad teg at asesiadau (er enghraifft 25% o amser ychwanegol). Yn nhrefniadau 2021, gellir defnyddio tystiolaeth wrth bennu gradd dysgwr lle nad oedd trefniadau mynediad addas ar waith, gan nad ystyrid yr asesiad yn un tyngedfennol pan gynhaliwyd ef. Bydd angen i ganolfannau sicrhau bod trefniadau mynediad priodol wedi'u hystyried wrth bennu graddau.
- Yn aml mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth yn eu dysgu a'u hasesiad gan sawl arbenigwr. Dylai graddau gael eu pennu gan ganolfannau gyda mewnbwn digonol gan athrawon arbenigol a bydd angen i ganllawiau sicrhau eu bod yn pennu graddau gan ddefnyddio'r ystod lawn o fewnbwn priodol.

Er bod y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau wedi'i gynnig mewn amgylchiadau eithriadol i amddiffyn buddiannau pob dysgwr yng Nghymru, roedd risg y byddai effaith y dull hwn yn wahanol i rai grwpiau. Fodd bynnag, awgrymodd ein dadansoddiadau o effeithiau ar gydraddoldeb fod y risgiau'n ymwneud yn fwy â phroblemau ehangach yn y system, megis ymgysylltu mewn dysgu, cymorth yn y cartref ar gyfer dysgu a mynediad at adnoddau, yn hytrach nag yn uniongyrchol â'r trefniadau amgen. Ni all cymwysterau liniaru anghydraddoldebau neu annhegwch yn y system addysg, nac mewn cymdeithas yn ehangach, a allai effeithio, er enghraifft, ar barodrwydd dysgwyr i ymgysylltu â chymwysterau.

Er ein bod wedi bwriadu ystyried bylchau cyrhaeddiad fel rhan o'r gwerthusiad o effaith y dull gweithredu yr haf hwn, mae'n annhebygol y byddwn yn gallu dod i gasgliadau am unrhyw newidiadau i'r bylchau cyrhaeddiad hyn. Mae bylchau cyrhaeddiad ar lefel pwnc hefyd yn newid o flwyddyn i flwyddyn, ac mae hyn yn debygol o gael ei yrru gan newidiadau fel gallu'r dysgwyr sy'n dewis cymryd y pwnc, a ffactorau fel newidiadau i arferion mynediad, neu gyrhaeddiad blaenorol ar lefel grŵp. Yn ogystal â gwahaniaethau yn y dysgwyr sy'n dilyn pob cymhwyster, mae llawer o wahaniaethau eraill yn y trefniant asesu eleni, o ran cyd-destun a dull gweithredu, a allai newid perfformiad a newid bylchau cyrhaeddiad. Heb arholiadau, nid oes unrhyw ffordd o wybod pa fylchau cyrhaeddiad fyddai wedi deillio o arholiadau eleni. Ni fyddwn yn gallu dod i'r casgliad, o newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad mewn Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn unig, fod rhagfarn yn y broses gan na fyddwn yn gwybod pa fylchau fyddai wedi deillio o arholiadau. Ymhellach, gallai ffactorau eraill fel newid mewn arferion cofrestru, neu gyrhaeddiad blaenorol ar lefel grŵp arwain at newid mewn bylchau cyrhaeddiad.

2.2.6 Cydraddoldebau yn ein cyfathrebu a'n hymgysylltu ar gyfer haf 2021

2.2.6.1 Is-grŵp Cydraddoldebau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni

Er mwyn datblygu'r trefniadau asesu amgen ar y cyflymder angenrheidiol, ffurfiodd aelodau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni is-grwpiau i ganolbwyntio ar feysydd allweddol y broses, ac i roi adborth i ni a CBAC am rai o agweddau manylach dull y Graddau a Bennir gan Ganolfannau.

Bu is-grŵp y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ar gydraddoldeb a llais y dysgwr yn ystyried ac yn cytuno ar ddeunyddiau ysgrifenedig gan Diverse Cymru ar osgoi rhagfarn anymwybodol a chynnig hyfforddiant ar y cyd gan Diverse Cymru a CBAC ar ragfarn anymwybodol i ganolfannau, fel rhan o raglen hyfforddi CBAC ar gyfer haf 2021. Yn ogystal, rhoddodd yr is-grŵp adborth ar ganllawiau pwrpasol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (EHRC) ar gyfer canolfannau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth bennu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yr haf hwn.

Wrth ystyried cydymffurfiad canolfannau â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, lluniodd yr is-grŵp ar gydraddoldeb a llais y dysgwr Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn cefnogi canolfannau i gwblhau eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu hunain ar gyfer pennu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Rhannwyd yr asesiad drafft o'r effaith ar gydraddoldeb ag EHRC Cymru, a derbyniodd cadeirydd yr is-grŵp yr holl adborth gan EHRC Cymru. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb terfynol ar gael i ganolfannau ar blatfform digidol Llywodraeth Cymru, Hwb.[10]

Bu'r grŵp hefyd yn ystyried llwybrau i ymgeiswyr preifat ennill cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yr haf hwn i sicrhau, cyn belled â phosib, fod cyfle cyfartal i'r dysgwyr. Er bod diffyg data ar nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr preifat, yn anecdotaidd, rydym yn deall

[10] Hwb yw'r platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru https://hwb.llyw.cymru/

y gallai rhai ymgeiswyr preifat rannu nodweddion gwarchodedig penodol, megis anabledd, crefydd a chred.

2.2.6.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein hasesiad o effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer y dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn haf 2021

Ym mis Mawrth, gwnaethom gwblhau Asesiad o Effaith Integredig, a oedd yn cynnwys Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau a oedd yn benodol i'r dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Roedd yr Asesiad Effaith Integredig hefyd yn ystyried effaith bosibl dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar erthyglau perthnasol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Roedd asesiadau effaith dros dro a ddefnyddiwyd i lywio penderfyniadau cynharach yn cefnogi cynhyrchu'r Asesiad Effaith Integredig hwn, a gafodd ei gryfhau gan waith pellach gan randdeiliaid i fod yn sail i benderfyniadau ar agweddau manylach ar y dull gweithredu. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau yma wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Fel rhan o'n dadansoddiad o effaith y trefniadau manylach ar gyfer haf 2021 buom yn ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb Dinasyddion Cymru, Cyngor Mwslimiaid Cymru, Cyngor Hil Cymru, Cytûn (Eglwysi gyda'n gilydd yng Nghymru), Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Teithio Ymlaen, Cymru Amrywiol, a Samariaid Cymru. Canolbwyntiodd ein hymgysylltiad ar grwpiau o ddysgwyr sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig penodol ac a allai brofi mwy o anghydraddoldeb na grwpiau eraill.

Rhoddodd y rhanddeiliaid hyn fanylion inni am yr anghydraddoldebau sy'n wynebu rhai grwpiau o ddysgwyr y maent yn teimlo sydd wedi gwaethygu ers dechrau'r pandemig. Fe wnaethant rannu pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r pandemig a thrafferthion yr oeddent yn ei hwynebu mewn perthynas â dysgu o bell wedi effeithio ar iechyd meddwl dysgwyr. Gwnaethant hefyd drafod yr anawsterau ychwanegol sy'n wynebu grwpiau penodol o ddysgwyr a allai rannu mwy nag un nodwedd warchodedig berthnasol. Efallai bod yr anawsterau hyn wedi effeithio ar lefel y mynediad i neu ddiddordeb a allai fod gan y dysgwyr hyn a'u rhieni neu ofalwyr yn ein gwybodaeth am ddull y Graddau a Bennir gan Ganolfannau.

At hynny, darparodd rhanddeiliaid dystiolaeth storïol am y potensial i ymgeiswyr preifat rannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol.

Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch effaith allgau digidol, colli dysgu gwahaniaethol, p'run a oedd addasiadau rhesymol yn cael eu defnyddio trwy gydol y profiad dysgu, argaeledd cyfathrebiadau hygyrch i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a'r potensial i ragfarn ddylanwadu ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau i'r dysgwyr hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol fel hil, anabledd, rhywedd, crefydd a chred, a'r dysgwyr hynny o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Er bod rhai o'r pryderon a godwyd y tu allan i gwmpas cymwysterau, buom yn gweithio i ymdrin â hwy cyn belled ag y bo modd trwy gefnogi athrawon a chanolfannau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau perthnasol fel yr amlinellir yn yr adrannau canlynol.

2.2.7 Ein gwaith i gefnogi athrawon a chanolfannau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED)

Ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2021 am y tro cyntaf. Roedd y canllawiau hyn yn cynnwys adran benodol ar gydraddoldebau, gan amlygu i ganolfannau yr angen i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn ogystal â gwybodaeth am yr hyfforddiant cysylltiedig â chydraddoldeb a oedd ar gael.

Gwnaethom sicrhau cefnogaeth gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, a luniodd ganllaw ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i gefnogi canolfannau. Rhoddodd is-grŵp y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ar gydraddoldebau adborth cadarnhaol am y canllaw hwn cyn i Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ei gyhoeddi. Gwnaethom ysgrifennu at ganolfannau am y canllaw hwn, ac mae ar gael yn eang trwy wefan Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru[11], gwefan ddiogel CBAC a gwefan Hwb[12] Llywodraeth Cymru. Mae canllawiau Comisiwn Cydraddodeb a Hawliau Dynol Cymru yn atgoffa canolfannau o'r angen i asesu effaith eu cynlluniau asesu ar gyfer haf 2021 yn erbyn anghenion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ystyried tystiolaeth berthnasol sy'n ymwneud â dysgwyr sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, ystyried unrhyw asesiad o effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r cynlluniau asesu, cyhoeddi canlyniadau'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb a monitro effaith y cynlluniau. Un o risgiau'r trefniadau amgen yw rhagfarn anymwybodol yn y dyfarniadau y mae canolfannau yn eu gwneud wrth bennu graddau dysgwyr. Codwyd hyn hefyd fel risg yn yr adolygiad Annibynnol[13].

Cynlluniwyd i gefnogaeth ar osgoi rhagfarn anymwybodol fod yn rhan o raglen gynhwysfawr CBAC o ddysgu proffesiynol. Buom yn gweithio gyda CBAC a Diverse Cymru, elusen Gymreig sydd wedi ymrwymo i gefnogi pobl sy'n wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu oherwydd nodweddion gwarchodedig penodol, i gefnogi hyfforddiant i athrawon ar osgoi rhagfarn wrth gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Cynhyrchodd Diverse Cymru ddeunyddiau ysgrifenedig ar ragfarn a oedd yn cynnwys: 'Beth yw rhagfarn anymwybodol', 'Sut i ganfod eich rhagfarnau eich hun', 'Mathau cyffredin o ragfarn anymwybodol' a dogfen o awgrymiadau i liniaru'r risg o ragfarn anymwybodol. Mae'r dogfennau hyn ar gael i ganolfannau ar wefan ddiogel CBAC ac ar wefan Hwb.

Cymerodd Diverse Cymru ran hefyd mewn sesiwn holi ac ateb fyw fel rhan o raglen hyfforddi Haf 2021 CBAC ar gyfer canolfannau ym mis Mawrth 2021. Rhannodd CBAC ddeunyddiau ysgrifenedig Diverse Cymru cyn y sesiwn holi ac ateb, ac roedd canolfannau'n gallu cyflwyno cwestiynau i'w hateb cyn y digwyddiad, ac yn ystod y digwyddiad. Recordiwyd y sesiwn holi ac ateb ac mae ar gael ar wefan ddiogel CBAC. Mynychwyd y sesiwn fyw gan 150 o athrawon.

---

[11] https://www.equalityhumanrights.com/ga/advice-and-guidance/our-approach-public-sector-equality-duty-and-guidance

[12]Hwb yw'r platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru https://hwb.gov.wales/

[13] Tudalen 2 Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

Cyfeiriwyd at ddeunyddiau ysgrifenedig Diverse Cymru hefyd yng nghyflwyniad hyfforddiant CBAC ar wrthrychedd a rhagfarn anymwybodol i ategu'r cynnwys asesu penodol a gynhyrchwyd gan CBAC. Mae'r holl ddeunyddiau a sesiynau hyfforddi ae gael yn ddwyieithog.

2.2.8 Ymgeiswyr preifat

Yn haf 2020, fe wnaeth tua 500 o ddysgwyr yng Nghymru gofrestru ar gyfer cymwysterau CBAC fel ymgeiswyr preifat. Mae ymgeiswyr preifat yn cynrychioli grŵp amrywiol o ddysgwyr, ac mae eu hanghenion unigol yn amrywio'n sylweddol. Gwnaethom ystyried addasrwydd unrhyw drefniadau asesu amgen ar gyfer dysgwyr a allai fod angen cofrestru ar gyfer cymwysterau fel ymgeiswyr preifat. Fel yr awgrymwyd gan rai o'r rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â nhw wrth ystyried y trefniadau, rydym yn deall y gallai llawer o ymgeiswyr preifat rannu nodweddion gwarchodedig penodol, ac amlygwyd effaith ein dulliau i'w hystyried ymhellach fel rhan o'n Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldebau. Er enghraifft, credwn y gallai rhai dysgwyr fod yn cael eu haddysgu gartref oherwydd credoau crefyddol, neu oherwydd anabledd.

Fel rhan o'r gwaith hwn, buom hefyd yn ymgysylltu â'r rhwydwaith Addysg Gartref Ddewisol i ystyried sut y gallai cyfathrebu fod mor effeithiol â phosibl. Roeddem yn gallu cynnwys ystyried y materion a nodwyd ar gyfer rhai grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol wrth gynllunio ar gyfer, a phenderfynu ynghylch, y dulliau terfynol i'w cymryd. Sicrhaodd ystyried yr opsiynau gan is-grŵp cydraddoldebau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni fod materion yn cael eu hasesu, eu hystyried, a'u lliniaru'n llawn lle'r oedd hynny'n bosibl. Rhoddodd ein Canllaw ar drefniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2021 drosolwg o'r trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat yn benodol.

Oherwydd natur y ffordd y mae graddau'n cael eu dyfarnu eleni, nid oedd yn bosibl sefydlu dull ar gyfer ymgeiswyr preifat a fyddai'n uniongyrchol debyg i ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru'n llawn mewn canolfan, ac sy'n ei mynychu. Roedd sicrhau bod ymgeiswyr preifat yn gallu cael graddau ar gyfer cymwysterau yr oeddent yn disgwyl cael graddau ar eu cyfer yn flaenoriaeth ac fe wnaethom geisio datblygu dull a oedd mor gymharol â phosibl ac nad oedd yn rhoi mantais nac yn rhoi dysgwyr dan anfantais p'un a oeddent yn ymgeiswyr preifat ai peidio. Cytunwyd ar ddull a fyddai'n cynnwys canolfannau sy'n croesawu ymgeiswyr preifat a CBAC yn cymryd cyfrifoldeb am bennu'r radd asesu gan ganolfan. Nid yw cynnwys CBAC mewn asesiad uniongyrchol fel hyn yn nodweddiadol o'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr yr haf hwn, ond teimlwyd mai hwn oedd yr ateb gorau yn yr amgylchiadau anghyffredin yr haf hwn. Ystyriwyd materion a allai effeithio ar ddysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol sy'n cyrchu'r dull hwn yn ofalus ac roeddent yn cynnwys: hygyrchedd mewn perthynas â'r angen i ymgeiswyr preifat fynychu canolfannau, mynediad at adnoddau, cydraddoldeb mewn perthynas â defnyddio asesiadau a gwblhawyd yn y ganolfan a gartref a chydraddoldeb mewn perthynas â phob cam o'r prosesau apelio. O ran agweddau eraill ar gynllunio ar gyfer haf 2021, gwnaethom geisio barn amryw o grwpiau

rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a chawsom adborth cadarnhaol ar y trefniadau.

Unwaith y cytunwyd ar y dull, gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod canolfannau'n bodoli a fyddai'n darparu ar gyfer ymgeiswyr preifat, a bod y rhain ar gael ac yn hygyrch ledled Cymru, a buom yn gweithio gyda CBAC i gytuno ar y trefniadau terfynol. Ym mis Mawrth gwnaethom gyhoeddi trefniadau penodol ar gyfer canolfannau oedd yn cofrestru ymgeiswyr preifat. Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd fersiwn fwy hygyrch gennym o'r trefniadau fel canllawiau i ymgeiswyr preifat, i gefnogi eu mynediad i raddau eleni.

2.2.9 Apeliadau

Mae dull y Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn rhoi athrawon, darlithwyr ac arweinwyr canolfannau wrth wraidd cyflwyno system a fydd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen. Mae ganddyn nhw hefyd rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at brosesau adolygu ac apelio teg eleni. Mae ein Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2021 yn cynnwys arweiniad ar sut y gall dysgwyr ofyn am adolygiad gan ganolfan ar y sail y bu camgymeriad yn ei phenderfyniad ac, yn dilyn hyn, sut y gallant apelio yn erbyn eu gradd ar sail camgymeriad gweithdrefnol neu farn academaidd (gweler 2.2.5.5). I gynhyrchu'r canllaw hwn, gwnaethom dynnu ar adborth perthnasol o'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'n hasesiad o effaith ar gydraddoldeb, fel yr amlinellwyd uchod.

Mae Cymwysterau Cymru yn gosod y gofynion cyffredinol y mae'n rhaid i CBAC eu dilyn wrth gyflawni'r broses apelio. Rydym wedi ymgysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru ac EHRC Cymru wrth ddatblygu'r dull hwn. Rydym wedi ceisio cydbwyso'r goblygiadau llwyth gwaith i ganolfannau ochr yn ochr â'r angen i ddarparu proses apelio deg ac ystyrlon i bob dysgwr. Mae'r fframwaith apelio a roddwyd ar waith yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac yn darparu cyfiawnder naturiol i ddysgwyr.

Dyluniwyd y broses adolygu ac apelio mewn canolfannau eleni i fod yn hygyrch i bob dysgwr, rhiant a/neu ofalwr, gan ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol, ac unrhyw addasiadau rhesymol perthnasol sydd eu hangen i gael mynediad i'r broses. Rydym wedi darparu arweiniad i ganolfannau ar yr amserlenni rhesymol ar gyfer gofyn am adolygiadau canolfannau ac apeliadau fel y gall dysgwyr a'u rhieni a/neu ofalwyr wneud penderfyniadau rhesymegol, gyda chefnogaeth briodol gan ganolfannau. Ym mis Mai, gwnaethom gyhoeddi ein Gwybodaeth i ganolfannau am adolygiadau canolfannau ac apeliadau yn haf 2021. Rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am Apeliadau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer dysgwyr.

Ystyriwyd yr effaith bosibl ar les dysgwyr yn ystod datblygiad y broses apelio ac mae'n ganolog i'r dull y cytunwyd arno. Mae ein gwybodaeth ar gyfer canolfannau ar adolygiadau gan ganolfannau ac apeliadau yn nodi y dylid gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cwnsela, bugeiliol a llesiant sydd ar gael yn eu canolfan. Fe wnaethom hefyd ddarparu dolenni i wasanaethau cymorth allanol perthnasol ar ein gwefan.

Adran 3 - Cymwysterau galwedigaethol

3.1 Trosolwg

Mae llawer o Gymwysterau Galwedigaethol a gymerir yng Nghymru hefyd yn cael eu cymryd yn Lloegr a /neu Ogledd Iwerddon. Cyfeirir at y rhain fel "Cymwysterau Galwedigaethol tair gwlad" yn yr adran hon. Yn ein gwaith "busnes fel arfer", rydym yn gweithio â'n cyd-reoleiddwyr (Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon), i sicrhau bod profiad dysgwyr o'r cymwysterau hyn yr un fath, waeth ble maen nhw'n astudio. Fe wnaethom barhau i fabwysiadu'r egwyddor hon yn ystod y pandemig.

Dim ond yng Nghymru y mae rhai cymwysterau galwedigaethol, megis Sgiliau Hanfodol a'r rhai mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gael. Fel rheoleiddiwr cymwysterau, rydym wedi sicrhau bod y dull o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol cymeradwy yn gyson â'r dulliau ar gyfer cymwysterau tebyg a gymerir mewn awdurdodaethau eraill.

3.2 Gwanwyn a haf 2020: Y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig

3.2.1 Datblygu'r dull amgen ar gyfer gwanwyn a haf 2020

O fis Mawrth 2020, buom yn gweithio gydag Ofqual ar fframwaith rheoleiddio (y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig (ERF)) i ganiatáu i gyrff dyfarnu addasu eu hasesiadau ar gyfer dysgwyr oedd i fod i gwblhau eu hasesiadau ar 20 Mawrth 2020 neu ar ôl hynny. Gwnaethom gysoni ein fframwaith ag un Ofqual i fodloni'r egwyddor o sicrhau y byddai dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau galwedigaethol tair gwlad ledled y DU yn profi'r un addasiadau waeth ble roeddent yn byw. Caniataodd y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig i gyrff dyfarnu ddarparu graddau wedi'u cyfrifo ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol sy'n debyg o ran y modd maent yn cael eu cyflwyno a'u hasesu i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a darparu asesiadau wedi'u haddasu ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol eraill. Roedd y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig hefyd yn caniatáu i gyrff dyfarnu ohirio asesiadau sy'n cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol lle na allai'r asesiadau ddigwydd oherwydd cyfyngiadau ar gadw pellter cymdeithasol neu gau lleoliadau.

3.2.2 Sut yr ystyriwyd effaith trefniadau ar gydraddoldebau

Lansiodd Ofqual yr ymgynghoriad ar y fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar 24 Ebrill 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob dull: graddau wedi'u cyfrifo, addasiadau neu oedi, a gofynnwyd barn am unrhyw effeithiau posibl eraill ar gydraddoldeb a ffyrdd o'u lliniaru. Ni wnaethom gynnal ymgynghoriad ar wahân ond gwnaethom annog rhanddeiliaid i ymateb i ymgynghoriad Ofqual.

Yn ystod y cyfnod hwn, buom yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid yng Nghymru. Fe wnaethon ni ofyn i ganolfannau sut roedden nhw'n teimlo bod y pandemig wedi effeithio ar grwpiau penodol o ddysgwyr ac a fyddai'r dulliau arfaethedig yn effeithio ar ddysgwyr mewn gwahanol ffyrdd. Trwy gydol y sgyrsiau hyn, gwnaethom sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn deall bod yn rhaid i asesiadau ar gyfer cymwysterau sy'n cadarnhau cymhwysedd mewn meysydd fel iechyd a diogelwch a diogelu barhau, hyd yn oed os oedd effaith negyddol ar rai dysgwyr.

Yn ystod gwanwyn 2020, gwnaethom hefyd gwrdd â grwpiau rhanddeiliaid i ddeall effaith y pandemig ar ddarparu addysgu ac asesiadau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol cymeradwy mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Gwnaethom ddefnyddio'r grwpiau hyn i ystyried addasiadau posibl ar gyfer cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant blaenorol a ddarparwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ond nid yn Lloegr. Ystyriodd y sgyrsiau hyn effeithiau cydraddoldebau y modelau arfaethedig o asesu ar ddysgwyr oedd yn cymryd y cymwysterau hyn. Roedd y dulliau cytunedig, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, yn cydbwyso anghenion dysgwyr ac anghenion sectorau.

Gwnaethom gwrdd â chanolfannau i drafod addasiadau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Mae dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn fwy tebygol o fod o ystod amrywiol o gefndiroedd na'r rhai sy'n cymryd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch mewn canolfannau. Mynegodd canolfannau bryder y byddai'r dysgwyr hyn yn llai tebygol o ddychwelyd i gwblhau eu cymwysterau yn dilyn absenoldeb oherwydd COVID-19. Gan fod Sgiliau Hanfodol yn aml yn cael eu darparu fel rhan o fframweithiau prentisiaeth, roedd pryderon sylweddol ynghylch nifer y dysgwyr nad oeddent yn gallu cwblhau eu prentisiaethau ac felly gael mynediad at gyflogaeth oherwydd nad oeddent yn gallu sefyll eu hasesiadau Sgiliau Hanfodol. Er mwyn bodloni'r egwyddor y dylid rhoi canlyniadau i gynifer o ddysgwyr â phosibl, wrth gynnal dilysrwydd y cymwysterau Sgiliau Hanfodol, fe wnaethom benderfynu caniatáu dyfarniadau yn seiliedig ar Raddau a Aseswyd gan Ganolfannau, gan alluogi dysgwyr a oedd yn gallu sefyll asesiadau i sefyll un yn unig o'r ddau asesiad sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhifedd a Chyfathrebu ar lefelau 1 i 3. Roedd yr addasiadau a roddwyd ar waith yn galluogi dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau a symud ymlaen, gan leihau'r anfantais bosibl i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol.

Trwy gydol y trafodaethau am addasiadau posibl i Gymwysterau Galwedigaethol yn 2020, codwyd pryderon ynghylch cynlluniau i gyflwyno addasiadau fel asesu o bell a goruchwylio o bell a allai roi rhai dysgwyr dan anfantais neu beidio â bod yn hygyrch i rai eraill. Trafododd y rheoleiddwyr y pwynt hwn gyda chanolfannau i ddeall eu barn. Yn dilyn ymgynghori, nodwyd yn y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig y dylai cyrff dyfarnu leihau anfantais i grwpiau penodol o ddysgwyr cyn belled ag y gallent, ond gan fod y cydbwyso'n anodd, caniataodd y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig i gyrff dyfarnu fynd ati i gyhoeddi canlyniadau neu addasu asesiadau ar gyfer mwyafrif y dysgwyr, hyd yn oed pe bai grŵp o ddysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais. Archwilir y pwynt hwn yn fanylach yn yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb a gynhwysir ym mhapur penderfyniadau Ofqual am drefniadau ar gyfer asesu a graddio yn 2020.

3.2.3 Effaith penderfyniadau a wnaed ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch

Effeithiwyd ar Gymwysterau Galwedigaethol tair gwlad a ddilynodd ddull tebyg ar gyfer dyfarnu i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2020 gan y newidiadau yn y polisi ar raddau a gyfrifwyd ar gyfer y cymwysterau hyn a ddisgrifir yn adran 2.1.4 uchod. Cafodd yr effaith ar ddysgwyr a oedd yn cymryd BTECs yn benodol lawer o gyhoeddusrwydd, gyda phenderfyniad hwyr i ganiatáu graddau a asesir gan ganolfannau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch fel BTECs, gan arwain at oedi

cyn i ddysgwyr dderbyn eu canlyniadau. Ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol eraill lle cafodd asesiadau naill ai eu haddasu neu eu gohirio, neu roeddent wedi cael eu dyfarnu gan ddefnyddio unedau wedi'u bancio, arhosodd y trefniadau a roddwyd ar waith yr un fath trwy gydol y gwanwyn a'r haf, er bod y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig yn caniatáu i gyrff dyfarnu ddatblygu eu dulliau wrth i'r sefyllfa esblygu.

3.3 Haf a hydref 2020: Y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig

3.3.1 Ymestyn trefniadau amgen i 2020/21

Fe wnaethom barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gydol gwanwyn a haf 2020 i ddeall effaith y trefniadau ar ddysgwyr a chanolfannau a'r heriau (a'r llwyddiannau) a wynebwyd gan gyrff dyfarnu wrth gyhoeddi canlyniadau. O fis Mehefin 2020, roedd y sgyrsiau hyn yn cynnwys ystyried pa fesurau tymor hwy y byddai angen eu rhoi ar waith i leihau effaith colli addysgu a dysgu a brofwyd gan ddysgwyr nad oeddent i fod i gael tystysgrif yn 2020 ond a fyddai'n parhau â'u rhaglen ddysgu i mewn i 2020 /21.

Fe wnaethom barhau i weithio gyda chyrff dyfarnu, cyrff sectorau a chanolfannau i gytuno ar addasiadau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol cymeradwy mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, a Sgiliau Hanfodol yn 2020/21. Fel o'r blaen, gwnaethom ymgysylltu â chanolfannau a chyrff yn y sector i ddeall effaith ein cynigion ar ddysgwyr.

Cyhoeddodd Ofqual eu hymgynghoriad ar estyniad i'r Fframwaith Rheoleiddio Arbennig ar gyfer 2020/21 ym mis Awst 2020. Fel o'r blaen, ni wnaethom ymgynghori ar wahân ond gwnaethom annog rhanddeiliaid yng Nghymru i ymateb i'r ymgynghoriad. Mabwysiadodd y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig (FfRhA Estynedig) y man cychwyn y byddai asesiadau'n cael eu cynnal yn ystod gweddill 2020 ac yn 2021. Caniataodd y FfRhA Estynedig i gyrff dyfarnu wneud newidiadau i asesiadau a chymwysterau er mwyn sicrhau bod dysgwyr, cyn belled ag y bo modd, yn cael cyfle i dderbyn canlyniadau teg ac i beidio â chael eu rhoi dan anfantais oherwydd effeithiau tymor hwy'r pandemig. Cyhoeddwyd y FfRhA Estynedig ar 12 Hydref 2020.

Roedd yr ymgynghoriad ar ymestyn y FfRhA yn cynnwys asesiad pellach o effaith ar gydraddoldeb, a oedd yn adleisio'r themâu yr ymdriniwyd â hwy yn yr ymgynghoriad ar gyfer y FfRhA ac unwaith eto yn ceisio barn ymatebwyr ynghylch a oedd unrhyw effeithiau pellach. Yn yr ymgynghoriad hwn, cynigiwyd y byddai'r ddarpariaeth yn y FfRhA sy'n caniatáu i gyrff dyfarnu roi addasiadau ar waith a allai roi rhai dysgwyr dan anfantais pe bai'n caniatáu i fwyafrif y dysgwyr gael mynediad at asesiadau neu dderbyn canlyniadau yn cael ei dileu. Roedd y cynnig hwn yn adlewyrchu gwahanol amgylchiadau cyflwyno ac asesu yn ystod haf a hydref 2020, gan gynnwys ailagor canolfannau, modelau cyflenwi mwy hyblyg a'r defnydd o dechnoleg.

Gwahaniaeth allweddol arall yn y FfRhA Estynedig oedd dileu'r gallu i ddyfarnu cymwysterau ar sail graddau a gyfrifwyd. Roedd hyn hefyd yn adlewyrchu ailagor canolfannau a mwy o gyfleoedd i asesu. Yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhwyswyd yn ymgynghoriad Ofqual, eglurwyd y byddai hyn yn lleihau anfantais i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig penodol, gan y gallai'r dysgwyr hyn fod yn llai tebygol o fod â digon o dystiolaeth i seilio

canlyniad wedi'i gyfrifo arni, er enghraifft oherwydd absenoldeb o ganlyniad i anabledd neu salwch tymor hir.

3.4 2021: Fframwaith Wrth Gefn y Cymwysterau Galwedigaethol

3.4.1 Cynllunio ar gyfer dyfarnu yn 2021: Cymwysterau Galwedigaethol cymeradwy

Ddiwedd 2020 a dechrau 2021, gwnaethom ystyried priodoldeb y trefniadau sydd ar waith ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol cymeradwy, yn enwedig yng ngoleuni penderfyniad y Gweinidog ym mis Tachwedd 2020 i ganslo arholiadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol cymeradwy mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, gwnaethom ymgysylltu â chanolfannau a'r cyrff dyfarnu i ddeall effaith y penderfyniad polisi i ganslo arholiadau ar asesiad ar gyfer y cymwysterau hyn. Ar gyfer cymwysterau yn y gyfres sydd â chyfres arholiadau ym mis Ionawr, buom yn siarad â chanolfannau i ddeall a oedd eu dysgwyr yn dymuno sefyll asesiadau mis Ionawr. Gan nad oedd consensws ar y pwynt hwn, gwnaethom y penderfyniad i barhau â chyfres mis Ionawr ar gyfer y cymwysterau hyn ond rhoi mesurau ar waith i sicrhau na fyddai dysgwyr a oedd naill ai heb gymryd yr asesiadau, neu a gymerodd yr asesiadau ond na wnaethant gyflawni hyd at y lefel y byddent yn ei ddisgwyl, yn cael eu rhoi dan anfantais pan ddyfernid cymwysterau yn haf 2021. Llwyddodd y weithred hon i liniaru'r risg o anfantais i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol.

Ar gyfer cymwysterau cymeradwy mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant sy'n cadarnhau cymhwysedd ac sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru gyda'r rheoleiddiwr gweithlu, gwnaethom adolygu'r trefniadau presennol a chynnal trafodaethau gyda chanolfannau, cyrff sector a chyrff dyfarnu. Yn dilyn y trafodaethau hyn, gwnaethom ymestyn y trefniadau presennol tan 31 Awst 2021. Gan fod mynediad at asesiadau yn y gweithle yn parhau i fod yn heriol, gydag effaith oedi i rai dysgwyr, roedd yr angen i sicrhau cymhwysedd mewn dysgwyr a fyddai'n gweithio gydag unigolion agored i niwed yn golygu na fyddai addasiadau pellach i asesu yn dderbyniol. Byddai hyn yn cael effaith ar bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol, ond ni fyddai'n rhoi dysgwyr â nodweddion gwarchodedig perthnasol dan anfantais benodol o'u cymharu â'u cyfoedion.

Ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol, gwnaethom hefyd ymgysylltu â chanolfannau i ddeall yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Ar gyfer y cymwysterau hyn, parhaodd canolfannau i wynebu heriau o ran ymgysylltu â dysgwyr ac asesu yn debyg i 2020, gyda'r ôl-groniad o ddysgwyr yn aros i gwblhau eu cymwysterau yn cynyddu ac yn dod yn anoddach i'w reoli. O ganlyniad i'r sgyrsiau hyn, cytunwyd bod hwyluso cwblhau'r cymwysterau ar gyfer cymaint o ddysgwyr â phosibl yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ar 9 Chwefror 2021, gwnaethom ysgrifennu at gyrff dyfarnu Sgiliau Hanfodol i gadarnhau y byddai dysgwyr nad oeddent yn gallu gwneud asesiadau ac a fyddai'n cael eu heffeithio'n negyddol trwy oedi asesiadau yn gymwys i dderbyn canlyniadau yn seiliedig ar farnau athrawon a wnaed gan ddefnyddio tystiolaeth amgen. Arhosodd yr addasiadau presennol i asesiadau yn eu lle hefyd.

3.4.2 Datblygu dull ar gyfer yr holl Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru

O fis Ionawr 2021, wrth i'r safbwyntiau polisi ledled gwledydd y DU o ran cau canolfannau ac asesu gael eu cyhoeddi, dechreuwyd ar waith ar drefniadau rheoleiddio ar gyfer dyfarnu yn 2021. Roeddem o'r farn, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i ddysgwyr yng Nghymru, y byddem unwaith eto'n cysoni ein fframwaith rheoleiddio ar gyfer pob Cymhwyster

Galwedigaethol gyda fframwaith Ofqual. Gwnaeth CCEA Regulation yr un penderfyniad yng Ngogledd Iwerddon.

Gwnaethom gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'n penderfyniad i gysoni gyda dull rheoleiddio Ofqual o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2021. Gwnaethom ystyried ymgynghoriad Ofqual ar y trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol a thechnegol a chymwysterau cyffredinol eraill yn 2021, a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2021 ac a oedd yn cynnwys eu Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Gwnaethom hefyd ystyried papur penderfyniadau ymgynghori Ofqual ar y trefniadau Rheoleiddio ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol a Chymwysterau Cyffredinol eraill yn 2020-2021, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 ar yr un pryd â'u Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol. Yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn y papur penderfyniadau, nododd Ofqual y dylai'r trefniadau fod mor deg â phosibl i bob myfyriwr ac mai eu nod ar gyfer Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn y Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol oedd iddo fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu derbyn canlyniadau lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Cydnabu Ofqual, beth bynnag fo'r trefniadau sydd ar waith, efallai na fydd yn bosibl lleihau'r anfantais sy'n wynebu rhai myfyrwyr yn llawn, gan gynnwys o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn rhannu nodwedd warchodedig. Mae Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn y Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu sicrhau, wrth wneud unrhyw addasiadau i asesiad ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol y mae'n ei ddarparu, ei fod yn lleihau rhagfarn.

3.4.3 Effaith trefniadau ar gyfer gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch

Cyhoeddwyd ein Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol ar 27 Ebrill 2021. Er ei fod yn cyd-fynd â fframwaith Ofqual, mae'r Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yn cydnabod bod y trefniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Felly mae'r Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol sy'n darparu Cymwysterau Galwedigaethol tair gwlad yng Nghymru yn rhoi hyblygrwydd i gyrff dyfarnu gysoni eu dulliau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol sydd fwyaf tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch gyda naill ai Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Ofqual neu Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Cymru Cymwysterau Cymru, fel y bo'n briodol.

Fel y disgrifiwyd yn Adran 2 uchod, gwnaethom ystyried effeithiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r gofynion rheoliadol ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy. Ym mis Ionawr 2021, cynhaliodd Ofqual ymgynghoriad ar y cyd â'r Adran Addysg yn Lloegr ar y penderfyniadau polisi a oedd yn sail i'r trefniadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021, a oedd yn cynnwys Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gydymffurfio ag ystyriaethau cydraddoldeb, yn enwedig Amodau D2 a G6 fel y'u nodir yn ein Amodau Cydnabod Safonol; mae hyn yn berthnasol i'r penderfyniad i gysoni eu dulliau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol gyda fframwaith y Cymwysterau Cyffredinol yng Nghymru neu yn Lloegr.

3.4.4 Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn 2021

Gwnaethom sefydlu grŵp Rhanddeiliaid Cymwysterau Galwedigaethol gyda chynrychiolaeth o Ddysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Bellach, ColegauCymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Prif bwrpas y grŵp yw darparu platfform i ni drafod gyda'r rhanddeiliaid allweddol yr heriau sy'n wynebu'r sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 o ganlyniad i'r pandemig wrth ddarparu ac asesu cymwysterau rheoleiddiedig. Y nod yw gweithio ar y cyd i nodi risgiau allweddol a heriau sy'n wynebu'r sector ac archwilio atebion neu gamau posibl y gellid eu cymryd i liniaru'r effaith ar ddysgwyr a chanolfannau.

Roedd y trafodaethau yn gynnar yn 2021 yn canolbwyntio ar yr effaith ar gyflawni, asesu a dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig yn 2021. Fodd bynnag, bwriedir i drafodaethau hefyd ystyried y dibyniaethau a'r effeithiau ehangach ar gymwysterau, gan gynnwys dilyniant dysgwyr, goblygiadau cyllido, prentisiaethau a datblygiadau yn y dyfodol.

Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol ac mae wedi ein galluogi i gael adborth ynghylch yr ateb arfaethedig ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn benodol, gan ein galluogi i fod â hyder yn y trefniadau y cytunwyd arnynt a roddwyd ar waith tan 31 Awst 2021.

Adran 4 - Edrych ymlaen

4.1 Monitro, dadansoddi a gwerthuso effaith ein trefniadau amgen 2021 ar gydraddoldebau

4.1.1 Monitro cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Chymwysterau Galwediaethol

Gallwn fonitro rhai agweddau ar y trefniadau amgen y cytunwyd arnynt ac a weithredwyd, y cyfeiriwn at rai ohonynt fel gweithredoedd yn ein Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldebau. Ni fyddwn yn monitro pob agwedd ar y dull gweithredu mor fanwl ag y byddem yn dymuno, gan y gallai hyn roi baich afresymol ar ganolfannau. Mae hyn yn golygu na fydd gennym ddarlun cyffredinol llawn o rai agweddau, megis manylion y grwpiau o ddysgwyr sy'n gofyn am adolygiad canolfan.

Ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, rydym wedi nodi gofynion i CBAC ddarparu diweddariadau ar eu prosesau sicrhau ansawdd allanol, megis cyflwyno polisïau asesu canolfannau ar gyfer gwirio a chyflwyno datganiadau Pennaeth y Ganolfan (sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus). Gallwn hefyd gadarnhau bod camau eraill wedi'u cwblhau, megis cyflwyno digwyddiadau hyfforddi wedi'u cynllunio gan CBAC a darparu canllawiau ychwanegol trwy Diverse Cymru ac EHRC Cymru. Fodd bynnag, mae natur y trefniadau amgen ar gyfer haf 2021 a'r amrywiol ffactorau y mae'n rhaid eu cydbwyso yn golygu nad yw'n bosibl monitro effaith y trefniadau wrth iddynt gael eu gweithredu. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC rannu data Graddau a Bennir gan Ganolfannau gyda ni, fel y gallwn adolygu'r canlyniadau, ond gan nad oes rhaglen o gynnal safonau eleni, ni fyddwn yn ymyrryd mewn canlyniadau mewn unrhyw ffordd. Byddwn hefyd yn casglu data gan CBAC ar y nifer o adolygiadau gan ganolfannau ac apeliadau, a'u canlyniadau, ar lefel gyfanredol. Byddwn yn ei gwneud yn

ofynnol i CBAC ddarparu dadansoddiad cydraddoldeb lefel uchel fel rhan o'n hadolygiad o ganlyniadau ar gyfer haf 2021.

Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, mae Ofqual wedi trefnu adolygiadau parodrwydd gyda'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Galwedigaethol, yr ydym wedi mynychu a chyfrannu atynt. Mae'r adolygiadau hyn wedi archwilio addasiadau'r cyrff dyfarnu, eu cyfathrebu â chanolfannau a materion gweithredol sy'n gysylltiedig â dyfarnu cymwysterau o dan y Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol. Mae'r trafodaethau hyn wedi darparu cyfleoedd i gyrff dyfarnu nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag effeithiau ar ddysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol. Yn yr un modd â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, mae natur yr addasiadau a wneir i asesiadau a'r defnydd amrywiol o Raddau a Bennir gan Ganolfannau yn golygu nad yw'n bosibl monitro effaith yr addasiadau wrth iddynt gael eu gweithredu. Mae casglu data sy'n ymwneud â'r addasiadau mewn ffordd a fydd yn darparu gwybodaeth ystyrlon am effeithiau cydraddoldeb hefyd yn heriol.

4.1.2 Gwerthuso

Yn ein trosolwg o ddyddiau canlyniadau, byddwn unwaith eto'n cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad dechreuol o fylchau cyrhaeddiad. Bydd y dadansoddiad yn cynnwys bylchau cyrhaeddiad dros amser yn ôl y nodweddion canlynol:

1. Oedran
2. Rhywedd
3. Anghenion addysgol arbennig
4. Cefndir ethnig bras
5. Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi datganiad Ystadegau Swyddogol ar yr effaith ar gydraddoldeb, yn amodol ar gwblhau cytundeb rhannu data gyda Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnal ymchwil i archwilio dichonoldeb gwella'r dadansoddiad gyda dadansoddiad technegol o'r canlyniadau.

Byddwn yn gallu cynnal gwerthusiad cyfyngedig o effaith y trefniadau amgen i asesu yn haf 2021 ar ddysgwyr o grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol gan ddefnyddio'r data yma. Bydd yn anodd gwahanu effaith y trefniadau amgen oddi wrth agweddau eraill sy'n cysylltu ag addysg yn gyffredinol. Rydym yn gwbl ymwybodol bod tystiolaeth i ddangos y gallai aflonyddwch a achosir gan y pandemig effeithio'n fwy negyddol ar rai grwpiau o ddysgwyr, gyda ffactorau, megis gwahanol lefelau o gefnogaeth gartref, amrywiad yn lefelau mynediad i adnoddau digidol ac amrywiad mewn ymgysylltiad â dysgu digidol, yn cael effaith sylweddol arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r agweddau hyn yn gynnyrch y trefniadau asesu amgen eu hunain nac ar wahân. Bydd y dadansoddiad o ganlyniadau yn caniatáu inni wneud sylwadau ar unrhyw newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad o haf 2019 a 2020. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddwn yn gallu dod i'r casgliad na fyddai gwahaniaethau mewn unrhyw fylchau cyrhaeddiad wedi digwydd mewn cyfres 'normal', gan y gallent ymwneud â'r garfan o ddysgwyr sy'n cymryd rhai cymwysterau, yn hytrach na'r

trefniadau amgen eleni. O ystyried y niferoedd bach sy'n gysylltiedig â rhai o'r grwpiau, mae'n debygol o fod yn anodd cynnal dadansoddiad meintiol ystyrlon pellach, er ein bod yn ystyried yr hyn a allai fod yn bosibl ac yn ddefnyddiol. Byddwn hefyd yn cynllunio ar gyfer rhywfaint o werthusiad ansoddol trwy ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid.

4.2 Cyfathrebu ac ymgysylltu

Bydd ein hymgysylltiad â sefydliadau cydraddoldebau yn parhau i'r flwyddyn academaidd nesaf fel y gallwn ddeall yn well effaith y trefniadau amgen ar ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac i lywio'r cynllunio wrth symud ymlaen. Byddwn yn mabwysiadu ystod o ddulliau yn amrywio o weminarau cyhoeddus i grwpiau ffocws ac yn defnyddio arolygon i gasglu adborth. Gan weithio o fewn canllawiau iechyd cyhoeddus, byddwn yn ystyried ystod o weithgareddau ymgysylltu ffisegol a rhithwir ac yn defnyddio digwyddiadau sydd eisoes yn bodoli i sicrhau ein bod yn cyrraedd y gynulleidfa. Bydd pob gwaith ymgysylltu yn cynnwys cyfathrebiadau dilynol i gefnogi dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r dull a fabwysiadwyd.

4.3 Gweithio gyda dysgwyr

Mewn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol i ymgysylltu'n fwy effeithiol â dysgwyr, gwnaethom sefydlu Grŵp Cynghori Dysgwyr ym mis Ebrill 2021. Er na sefydlwyd y grŵp hwn mewn pryd i gael mewnbwn i'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer haf 2021, bydd yn cyfrannu at ein gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer haf 2022. Rydym hefyd wedi derbyn adborth gan y grŵp sydd wedi bod yn sail i'n cyfathrebiadau a rhai manylion terfynol am y prosesau ar gyfer haf 2021.

Y bwriad yw bod gan aelodau ystod eang o brofiadau a chefndiroedd. Er hynny, bydd recriwtio yn y dyfodol yn cael ei dargedu at barhau i ddenu aelodau o ystod mwy amrywiol o gefndiroedd i sicrhau cynrychiolaeth ehangach o leisiau dysgwyr yng Nghymru. Gwnaethom ymgysylltu â nifer o randdeiliaid addysg a hyrwyddo'r lleoedd gwag ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Roedd y prosesau recriwtio yn cwmpasu gweithgor trawsadrannol i graffu a llunio rhestr fer o aelodaeth a oedd yn cynrychioli demograffig y dysgwyr yng Nghymru, cyn belled ag yr oedd hynny'n ymarferol ac yn bosibl ar y pryd. Roedd hyn yn cynnwys cydbwysedd o ddysgwyr gwrywaidd a benywaidd o gefndiroedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, amrywiaeth o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, lleoliadau daearyddol a lleoliadau addysgol.

Buom yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Plant Cymru i sicrhau ymagwedd oedd yn pwysleisio hawliau plant at sefydlu'r grŵp. Mae sawl un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth galon y grŵp, yn benodol y rhai sy'n delio â hawliau i gyfranogi; mae gan blant yr hawl i ddweud sut maen nhw'n teimlo, i gael gwrandawiad, ac i gael eu cymryd o ddifrif, a bydd yr erthyglau hyn yn cael eu hadlewyrchu wrth i'r grŵp barhau i weithredu. Mae ymgysylltu yn digwydd gan ddefnyddio llwyfannau rhithwir.

Mae Cymwysterau Cymru eisoes yn ymgysylltu â dysgwyr trwy lythyrau rheolaidd i ddysgwyr (trwy ganolfannau) ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gwaith pellach i gynnwys llais y dysgwr yn ein gweithgaredd wedi cynnwys lansio ein cyfrif Instagram yn ddiweddar. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn deialog ehangach gyda dysgwyr ac yn lansio arolwg "Dweud

eich dweud?" rheolaidd i ddysgwyr rannu eu syniadau a rhoi adborth i ni. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau mwy hygyrch o'n canllawiau yn benodol ar gyfer dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau 2021 - Y cyfan sydd angen i chi ei wybod, Adolygiadau gan Ganolfannau ac Apeliadau 2021 a Chanllawiau i Ymgeiswyr Preifat.

4.4 Cyfres haf 2022

Yn ein cynlluniau wrth gefn ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r effaith y byddai ein penderfyniadau yn ei chael ar gymwysterau yn 2022 a thu hwnt. Roedd hefyd yn rhan o gylch gwaith y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i fod yn ymwybodol o'r goblygiadau ar gyfer 2022 wrth ddatblygu eu dull ar gyfer 2021, yn enwedig i ddysgwyr a oedd ym Mlwyddyn 10 a 12 ar y pryd. Ym mis Mawrth 2021, dechreuon ni archwilio opsiynau ar gyfer 2022 yn fwy manwl. Rydym eisoes wedi cadarnhau y bydd addasiadau yn cael eu gwneud i asesiadau 2022 ac wedi cyhoeddi ein Gofynion ar gyfer addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2022 ac Amodau Arbennig ar gyfer Addasu asesiadau yn 2021/2022. Fel yn achos haf 2021, mae'r gofynion yn ailadrodd yr angen i CBAC sicrhau y dylai, wrth wneud unrhyw addasiadau i asesiadau, leihau rhagfarn, cyn belled ag y bo modd. Mae CBAC yn ymgynghori â chanolfannau i lywio penderfyniadau terfynol ar sail pwnc. Mae CBAC hefyd wedi cynllunio fersiynau hygyrch o'r addasiadau arfaethedig a chwestiynau ymgynghori yn benodol ar gyfer dysgwyr. Cyhoeddir yr ymgynghoriad hwn sy'n addas i ddysgwyr ym mis Mehefin. Byddwn yn cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân ar y dulliau o asesu a chynllunio wrth gefn ar gyfer 2022.

Adran 5 - Atodiadau

Atodiad A - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau - ar gyfer dull Graddau a Bennir gan Ganolfannau (Mawrth 2021)

Cyflwyniad

Oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus, gwnaeth y Gweinidog Addysg y penderfyniad ym mis Tachwedd i ganslo arholiadau. Ers hynny, mae'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, CBAC a grwpiau rhanddeiliaid allweddol eraill wedi gweithio gyda'i gilydd tuag at gael ateb i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn derbyn cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 a fydd yn eu galluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus i ddysgu pellach neu i gyflogaeth.

Ar 20 Ionawr 2021, ar ôl ystyried y cynigion diwygiedig a gyflwynwyd gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y safbwynt polisi yn gyhoeddus y bydd dysgwyr sy'n ymgymryd â TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yn cael eu cymwysterau wedi'u dyfarnu trwy fodel Graddau a Bennir gan Ganolfannau, sy'n golygu y bydd graddau yn cael eu pennu gan ysgolion a cholegau ar sail asesiad o waith dysgwyr.

Ystyriodd Bwrdd Cymwysterau Cymru gyfarwyddyd polisi disgwyliedig y Gweinidog ar 18 a 19 Ionawr 2021. Fel rhan o'r broses benderfynu hon, roedd gan y Bwrdd fynediad at asesiad o effaith ar gydraddoldeb Rhagfyr 2020. Yn dilyn cyfarwyddyd polisi'r Gweinidog, ar 20 Ionawr 2021, ymrwymodd Cymwysterau Cymru yn gyhoeddus i newid rheoliadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yng Nghymru i ganiatáu ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau, ac i weithio gyda CBAC i sefydlu fframwaith asesu i gefnogi ysgolion a cholegau. Yn ogystal, bydd CBAC yn datblygu ac yn gweithredu proses sicrhau ansawdd i gadarnhau bod gan ysgolion a cholegau weithdrefnau priodol ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb o ddyfarnu graddau trwy fodel Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Fel corff cyhoeddus, mae gan Cymwysterau Cymru ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a elwir yn Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i roi sylw dyledus wrth gyflawni ei swyddogaethau i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn enwedig yn erbyn y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig (a restrir isod), i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i feithrin cysylltiadau da.

Mae model y Graddau a Bennir gan Ganolfannau wedi'i gynnig mewn amgylchiadau eithriadol i amddiffyn buddiannau pob dysgwr yng Nghymru ond mae'n anochel y bydd effaith y dull hwn yn wahanol i rai grwpiau. Fodd bynnag, ni all cymwysterau liniaru anghydraddoldebau neu annhegwch yn y system addysg nac mewn cymdeithas yn ehangach a allai effeithio, er enghraifft, ar barodrwydd dysgwyr i ymgysylltu â chymwysterau. Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau yn ddewisol i gofrestru ar eu cyfer ac mae ceisiadau'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae

bylchau cyrhaeddiad ar lefel pwnc hefyd yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn debygol o gael ei sbarduno gan newidiadau, er enghraifft, yng ngallu'r dysgwyr sy'n dewis cymryd y pwnc. Heb arholiadau, nid oes unrhyw ffordd o wybod pa fylchau cyrhaeddiad fyddai wedi deillio ohonynt eleni. Ni fyddwn yn gallu dod i'r casgliad, o ystyried newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad mewn Graddau a Bennir mewn Canolfannau yn unig, bod rhagfarn yn y broses, gan na fyddwn yn gwybod pa fylchau fyddai wedi deillio o arholiadau.

Er y gallai ystod eang o ffactorau gael effaith ar allu dysgwr i ennill cymhwyster, mae ein dylanwad yn y cyd-destun cyfredol wedi'i gyfyngu i'r fframwaith asesu a threfniadau'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer y Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Ni fydd dulliau monitro yn gweithio ar lefel genedlaethol, gan fod y model yn rhagfarnu o blaid dealltwriaeth o'r dysgwr unigol. Beth bynnag, byddai'n anodd monitro anghydraddoldebau, er enghraifft, nid yw newid mewn cyrhaeddiad o reidrwydd yn golygu bod rhywbeth o'i le neu fod y Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn rhagfarnllyd. Cyfeirir isod at fanylion lliniaru posibl, mewn perthynas â phob nodwedd warchodedig, y mae rhai ohonynt yn gamau lliniaru posibl sy'n berthnasol i rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, canolfannau, a CBAC, er enghraifft. Mae amserlenni ar gyfer camau lliniaru wedi'u nodi pan fu'n bosibl gwneud hynny; bydd amserlenni yn cael eu hychwanegu a /neu eu diweddaru pan wneir penderfyniadau pellach.

Mae'r ystyriaethau cydraddoldeb isod yn ymwneud â model y Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Ond mae'r dirwedd cydraddoldeb gyffredinol y manylir arni isod yn dal i fod yn sylfaenol i'r dull amgen o 'wneud dim'. Mae'r dull 'gwneud dim', ar hyn o bryd, yn cyfeirio at y dull asesu a gynlluniwyd y cytunwyd arno o'r blaen gan Fwrdd Cymwysterau Cymru ym mis Rhagfyr 2020, a oedd eisoes yn sylweddol wahanol i'r trefniadau asesu arferol ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Gyda lledaeniad cynyddol amrywiadau newydd o COVID-19 a'r cyflymder y newidiodd canllawiau iechyd cyhoeddus, ynghyd â gweithredu ton arall o gyfyngiadau symud cenedlaethol ar ddechrau'r flwyddyn, nid oedd hwn bellach yn opsiwn ymarferol o dan yr amgylchiadau. Pe na bai'r dull wedi'i newid, byddai risgiau ychwanegol wedi bod yn gysylltiedig â rhai grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â'u gallu i gwblhau asesiadau o fewn amserlenni penodol, er enghraifft, ac oherwydd y byddai llai o hyblygrwydd i ganolfannau addasu i'w cyd-destunau lleol.

Wrth i fanylion y fframwaith asesu a'r broses sicrhau ansawdd gael eu cytuno, bydd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn unol â hynny. Bydd unrhyw benderfyniadau rheoliadol pellach a gymerwn yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar gydraddoldebau.

1. **Pa wybodaeth neu dystiolaeth berthnasol sydd wedi'i hystyried?**
    - Y myth o 'ddal i fyny' ar ôl Covid-19 | Elusen Adoption UK
    - Hawliau Plant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
    - Sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
    - A yw Cymru'n Decach? 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hydref 2018
    - Y Ffordd Gywir, Comisiynydd Plant Cymru
    - Dadansoddiadau cydraddoldeb ar lefel myfyrwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch, Ofqual
    - Asesu effaith a'r ddyletswydd cydraddoldeb yng Nghymru, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
    - Hiliaeth yng Nghymru? (Archwilio rhagfarn yn y system addysg yng Nghymru), Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Mai 2020
    - Teachers' Bias Against the Mathematical Ability of Female, Black, and Hispanic Students, (2020) Copur-Gencturk, Cimpian, Lubienski, Thacker
    - Dadansoddiad o Effaith ar Gydraddoldeb Haf 2020: TGAU, UG, a Safon Uwch, Cymwysterau Cymru, Hydref 2020
    - Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd, Adroddiad thematig, Estyn, Ebrill 2019
    - Gender difference in GCSE, adroddiad Cambridge Assessment Research, Hydref 2015
    - Pecyn cymorth Tosturi mewn Addysg, Samariaid Cymru
    - Gwahardd unigolion a addysg yng Nghymru – y gost gudd, Samariaid Cymru, Awst 2019
    - Deddf Cydraddoldeb 2010
    - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**.**

1.1 Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gyda'r grwpiau/unigolion canlynol:

- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru: 14 a 18 Ionawr 2021
- Cyngor Mwslimiaid Cymru, Cyngor Hil Cymru, Dinasyddion Cymru: 27 Ionawr 2021
- Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru): 03 Chwefror 2021
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru, 5 Chwefror 2021
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, 5 Chwefror 2021

- Teithio Ymlaen, 8 Chwefror 2021
- Diverse Cymru, 8 February 2021
- Samariaid Cymru, 11 March 2021

2. Beth yw effeithiau gwahanol model y Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar bob un o'r grwpiau canlynol?

Beth yw gwahanol effeithiau'r dull ar bob un o'r grwpiau canlynol? Beth yw'r camau lliniaru lle bo hynny'n berthnasol?	
	Model y Graddau a Bennir gan Ganolfannau
Anabledd	Mae dysgwyr ag anableddau yn debygol o fod mewn mwy o berygl o golli amser addysgu a dysgu yn y flwyddyn academaidd hon, a'r flwyddyn academaidd flaenorol, (oherwydd eu bod yn fwy agored i niwed oddi wrth COVID-19 ac angen ynysu yn gynharach neu'n amlach). Gallai dysgwyr ag anableddau hefyd fod mewn perygl o gael mwy o rwystrau i ddysgu trwy ddysgu ar-lein/o bell, oherwydd mynediad at adnoddau a/neu galedwedd addas. Bydd rhai dysgwyr wedi cymryd camau sylweddol yn ôl o ran eu hymddygiad a'u gallu i wneud rhai tasgau. Bydd canolfannau'n gallu ystyried hyn wrth iddynt gynllunio asesiadau. Mae dysgwyr ag anableddau wedi bod yn fwy tebygol o fod wedi profi ymyriad sylweddol ar eu haddysg, ac wedi derbyn lefel wahanol o gefnogaeth yn eu dysgu o bell. Mae'r golled ddysgu wahaniaethol hon yn bygwth lefelau cyrhaeddiad ac yn ehangu anghydraddoldebau â'u cyfoedion. Mae lefelau cyrhaeddiad eisoes yn sylweddol is ar gyfer plant ag Anghenion Addysg Arbennig (AAA) na'r rhai heb AAA. Plant ag anawsterau dysgu difrifol a phlant ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n profi'r cyrhaeddiad isaf. Mae cyrhaeddiad isel ar ddiwedd addysg orfodol yng Nghymru yn cael ei brofi gan ddisgyblion â namau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, anghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, anawsterau dysgu cyffredinol, ac anawsterau dysgu cymedrol. Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, ni wyddys cymaint am brofiadau addysg dysgwyr â gwahanol fathau o namau[14]. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn cyhoeddi cynlluniau i ymdrin â'r colli dysgu gwahaniaethol.

[14] A yw Cymru'n Decach? 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

	Defnyddiwyd dull tebyg, sef graddau a aseswyd gan ganolfannau, i ddyfarnu graddau yn Haf 2020. Cafodd y rhai sydd ag AAA a hebddynt ganlyniadau uwch nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr gyda bylchau AAA ar gyfer graddau 2020 (diwygiedig) yn tueddu i fod yn lletach (yn fwy o blaid dysgwyr heb ddarpariaeth AAA) i'r graddau uchaf ar gyfer TGAU ac UG, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ond nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc[15]. Efallai bod rhai dysgwyr wedi profi effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Efallai bod rhai dysgwyr wedi datblygu cyflwr iechyd meddwl (neu bod eu cyflwr blaenorol wedi gwaethygu) o ganlyniad i ysgolion yn cau a dysgu o bell, a theimladau o unigedd. Bydd rhai dysgwyr ag awtistiaeth wedi cael eu heffeithio gan y newid yn eu trefn arferol, er enghraifft, oherwydd cau ysgolion, a allai olygu nad ydyn nhw wedi bod yn dysgu fel yr hoffen nhw, a gallai hyn achosi pryder. Gallai materion iechyd meddwl effeithio ar allu dysgwyr i ymgysylltu â'r broses ar gyfer pennu eu graddau ar sail tystiolaeth asesu. Bydd canolfannau'n gallu cymryd hyn i ystyriaeth wrth iddynt gynllunio asesiadau. Efallai y bydd canolfannau hefyd yn gallu rhoi cefnogaeth os yw iechyd meddwl dysgwyr yn bryder[16]. Mae yna ganfyddiad bod galluogi athrawon, sy'n adnabod dysgwyr orau, ac wedi arfer addysgu dysgwyr ag anableddau, i wneud y dyfarniad cyffredinol yn decach nag y gallai asesiadau allanol fod wedi bod. Ond gallai eraill anghytuno, yn enwedig os oes pryder y byddai rhagfarn mewn perthynas â hil yn effeithio ar y dyfarniad cyffredinol (gweler isod). Dylid darparu hyfforddiant a chyngor i ganolfannau ar sut i osgoi hyn. Mae tystiolaeth yn amrywiol ynghylch a yw hyfforddiant am ragfarn anymwybodol yn effeithiol, ac felly efallai na fydd hyn yn lliniaru'r risg bosibl yn llwyr. Bydd CBAC yn darparu adnoddau hyfforddi, ynghylch dull canolfannau o asesu a sicrhau ansawdd, er enghraifft, yn ogystal ag ar sicrhau gwrthrychedd wrth asesu tystiolaeth dysgwyr, a fydd yn cynnwys rheoli rhagfarn. Fel rhan o raglen hyfforddi CBAC, mae CBAC ar y cyd â Diverse Cymru, yn darparu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol. Dylid defnyddio asesiadau wedi'u haddasu, yn unol â ffordd arferol y dysgwr o weithio. Yn ddelfrydol, bydd asesiadau hen bapurau wedi'u haddasu dewisol CBAC yn cael eu darparu mewn fformatau diwygiedig, fel y byddent ar gyfer arholiadau, ar gais y ganolfan (ar gyfer dysgwyr sydd â hawl i addasiadau rhesymol sydd angen papurau wedi'u haddasu). Bydd canllawiau'n cael eu diweddaru a'u hailgyhoeddi i ganolfannau gan CBAC. Bydd trefniadau mynediad ar gyfer asesiadau a deunyddiau asesu, yn ogystal â sefyllfaoedd addysgu/dysgu o bell hygyrch (gan gynnwys

[15] Dadansoddiad o Effaith ar Gydraddoldeb Haf 2020: TGAU, UG, a Safon Uwch, Cymwysterau Cymru, Hydref 2020

[16] Pecyn cymorth Tosturi mewn Addysg, Samariaid Cymru

	cyfathrebu clir i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr), yn ystyriaethau pwysig i ganolfannau, fel bod dysgwyr ag anableddau yn cael eu cefnogi. Tra bydd rhai canolfannau'n gyfarwydd â dysgu dysgwyr ag anableddau, dylai canolfannau geisio arweiniad gan athrawon anabledd arbenigol a gweithwyr cymorth, a/neu elusennau arbenigol, i sicrhau bod addasiadau rhesymol priodol ar waith ar yr adeg briodol (os nad ydyn nhw'n gwneud hynny eisoes). Gallai problemau gyda threfniadau mynediad ac addasiadau rhesymol fod yn sail i rai ceisiadau i'r Radd a Bennir gan y Ganolfan gael ei hadolygu ac am rai apeliadau. Gallai dysgwyr ag anableddau gael eu cynrychioli'n anghymesur mewn ffigurau addysgu gartref, ac mewn cyfraddau gwahardd. Er bod diffyg data am nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr preifat, mae yna ragdybiaeth fod rhai dysgwyr ag anableddau yn debygol o fod yn ymgeiswyr preifat. Bydd angen i gynlluniau sy'n ymddangos ar gyfer eu hasesu ystyried hyn. Bydd angen i ganolfannau gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a bydd canllawiau Cymwysterau Cymru yn atgoffa Canolfannau o'u rhwymedigaethau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ganolfannau hefyd gael gafael ar ganllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru[17]. Bydd gan ysgolion a cholegau brosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau am raddau mor gyson â phosibl (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Bydd CBAC yn darparu'r sicrwydd ansawdd allanol i wirio bod y prosesau y mae ysgolion a cholegau yn eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn briodol. Yn ogystal, mae prosesau a allai helpu i sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth, a meithrin cyd-ddealltwriaeth o broses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau, gyda'r potensial i rannu arfer da, yn eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, fel y gall dysgwyr fod yn hyderus yn eu graddau. Bydd angen i brosesau sicrhau ansawdd gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Bydd dysgwyr yn gallu gofyn i ganolfannau adolygu eu Gradd dros dro a Bennir gan Ganolfan ar sail barn a/neu ar y sail fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Mae ail gam y broses apelio yn caniatáu gwneud apêl i CBAC ynghylch gradd, ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud.

[17] Yn ogystal â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol i nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer AAA dysgwyr.

Ailbennu rhywedd	Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, gwyddys llai am brofiadau addysgol rhai grwpiau sydd mewn perygl yng Nghymru, fel y rhai sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. Gallai rhai dysgwyr sy'n bwriadu trawsnewid gael anhawster i ddychwelyd at ddysgu neu gael mynediad i asesiadau.
Hil	Gallai dysgwyr o leiafrifoedd ethnig fod yn fwy agored i COVID-19 a chael eu heffeithio gan salwch teulu neu brofedigaeth, ac felly efallai eu bod wedi colli mwy o addysgu a dysgu. Gallai hyn ofyn am lefelau addasu gan athrawon (cyhyd ag y gellir dyfarnu gradd ar sail tystiolaeth o hyd). Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd i awgrymu y gallai rhai dysgwyr yn y grŵp hwn fod wedi treulio llai o amser ar ddysgu o bell. Mae peth tystiolaeth bod hyn yn berthnasol i ddysgwyr Pacistanaidd a Bangladeshaidd[18], er enghraifft. Bydd athrawon yn gallu ystyried hyn wrth iddynt gynllunio asesiadau. Bydd dysgwyr o wahanol gefndiroedd ethnig yn debygol o fod wedi profi ymyrriad sylweddol ar eu haddysg ac efallai eu bod wedi derbyn lefel wahanol o gefnogaeth yn eu dysgu o bell. Mae'r golled hon o ran dysgu gwahaniaethol yn fygythiad i lefelau cyrhaeddiad ac yn ehangu anghydraddoldebau â'u cyfoedion. Mae lefelau cyrhaeddiad eisoes yn sylweddol is ar gyfer plant o wahanol grwpiau ethnig sy'n cyflawni gwahanol ganlyniadau cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru, a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd â'r lefelau cyrhaeddiad gwaelaf yn yr ysgol (dim ond un o bob pump o blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n gadael yr ysgol gyda phum TGAU ar radd A-C)[19]. Mae gan ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr broblemau penodol wrth gyrchu dysgu o bell oherwydd cyfraddau uwch o allgau digidol [20]. Efallai na fydd dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu cefnogi gan eu rhieni/gofalwyr os oes gan eu rhieni sgiliau llythrennedd a llythrennedd digidol cyfyngedig, ac efallai na fydd amgylcheddau eu cartrefi yn ffafriol i ddysgu. Mae dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn debygol o fod wedi ymddieithrio'n sylweddol oddi wrth addysg, gyda rhai dysgwyr sydd heb gael mynediad at ddysgu ac addysgu o gwbl ers mis Mawrth 2020. Mae gan rai awdurdodau lleol wasanaethau cymorth pwrpasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sydd wedi darparu cefnogaeth gyfannol ac wedi dosbarthu copïau caled o waith ysgol pan oedd cyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn

[18] Equality and Human Rights Commission [EHRC] – How coronavirus has affected equality and human rights 2020 (equalityhumanrights.com) -Tudalen 27

[19] A yw Cymru'n Decach? 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

[20] Equality and Human Rights Commission [EHRC] – How coronavirus has affected equality and human rights 2020 (equalityhumanrights.com) - Tudalen 28

	caniatáu hynny. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ganolfannau, yn ogystal ag awdurdodau lleol, ymgysylltu'n rhagweithiol â dysgwyr a'u teuluoedd i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i gyrchu'r wybodaeth berthnasol. Er bod diffyg data i gadarnhau nifer y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cael eu haddysgu gartref, mae'n debygol bod y dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn anghymesur. Yn yr un modd, mae'r dysgwyr hyn yn aml yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfraddau presenoldeb isel ac mewn ffigyrau gwaharddiadau [21]. Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, nid yw'n eglur a fyddai'r dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn nifer yr ymgeiswyr preifat. Os felly, bydd angen i gynlluniau sy'n ymddangos ar gyfer asesu ymgeiswyr preifat ystyried hyn. Os nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw'r iaith gartref i ddysgwyr[22] yn y grŵp hwn, yna efallai y bydd eu rhieni neu eu gofalwyr yn llai abl i'w cefnogi gyda'u dysgu o bell. Gallai hyn effeithio ar hygyrchedd gwybodaeth am y dull o asesu ac, yn bwysig, gwybodaeth am fynediad at eu Graddau a Bennir gan Ganolfannau a chyfleoedd i apelio yn eu herbyn. Yn ogystal â chanolfannau sy'n darparu gwybodaeth glir a thryloyw i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, gallai fod yn bosibl i ganolfannau estyn allan at hyrwyddwyr cymunedol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr a'u teuluoedd os nad yw canolfannau eisoes yn ymgymryd â'r math hwn o weithgaredd. Mae yna risg bosibl o ragfarn anymwybodol mewn asesiadau athrawon, sy'n cael effaith negyddol ar ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig (gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr). Byddai angen darparu hyfforddiant a chyngor i gefnogi canolfannau i lunio barn ac osgoi hyn. Mae yna dystiolaeth wahanol ynghylch a yw hyfforddiant am ragfarn anymwybodol yn effeithiol, ac felly efallai na fydd hyn yn lliniaru'r risg bosibl yn llwyr. Bydd CBAC yn darparu adnoddau hyfforddi, ar ddull y canolfannau o asesu a sicrhau ansawdd, er enghraifft, yn ogystal ag ynghylch sicrhau gwrthrychedd wrth asesu tystiolaeth dysgwyr, a fydd yn cynnwys rheoli rhagfarn. Fel rhan o raglen hyfforddi CBAC, mae CBAC, ar y cyd â Diverse Cymru, yn darparu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol. Bydd dysgwyr yn gallu gofyn i'w canolfan adolygu eu Gradd a Bennir gan y Ganolfan os ydyn nhw'n credu ei bod yn anghywir. Bydd dysgwyr yn gallu gofyn i ganolfannau adolygu eu Gradd dros dro a Bennir gan Ganolfan ar sail barn a/neu ar y sail fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Mae ail gam y broses apelio yn caniatáu gwneud apêl i CBAC ynghylch gradd, ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud.

[21] Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd, Estyn, Ebrill 2019

[22] Equality and Human Rights Commission [EHRC] – How coronavirus has affected equality and human rights 2020 (equalityhumanrights.com) - Tudalen 28

	Bydd gan ysgolion a cholegau brosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch graddau mor gyson â phosibl (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Bydd CBAC yn darparu'r sicrwydd ansawdd allanol i wirio bod y prosesau y mae ysgolion a cholegau yn eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn briodol. Yn ogystal, mae prosesau a allai helpu i sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth, a meithrin cyd-ddealltwriaeth o broses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau, gyda'r potensial i rannu arfer da, yn eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, fel y gall dysgwyr fod yn hyderus yn eu graddau. Bydd angen i brosesau sicrhau ansawdd gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Bydd angen i ganolfannau hefyd gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a bydd canllawiau Cymwysterau Cymru yn atgoffa Canolfannau o'u rhwymedigaethau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ganolfannau hefyd gael gafael ar ganllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.
Oedran (ystyriwch Hawliau'r Plentyn a Chenedlaethau'r Dyfodol hefyd)	Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol. Nid yw nodwedd warchodedig oedran yn berthnasol i ddysgwyr mewn ysgolion.
Rhywedd	Mae risg bosibl o ragfarn anfwriadol a chamdybiaeth mewn asesiad athrawon sy'n gysylltiedig â stereoteipio ar sail rhywedd. Er enghraifft, gallai asesiad athrawon fod yn fwy tebygol o roi merched BAME dan anfantais mewn pynciau fel mathemateg[23]. Gallai asesiad athrawon hefyd gael effaith negyddol ar fechgyn os oes ganddynt, er enghraifft, ddisgwyliadau isel am fechgyn, yn enwedig os ydynt o gefndir difreintiedig economaidd-gymdeithasol. Byddai angen darparu hyfforddiant a chyngor i gefnogi canolfannau i lunio barn ac osgoi rhagfarn anymwybodol. Mae tystiolaeth yn gwahaniaethu ynghylch a yw hyfforddiant am ragfarn anymwybodol yn effeithiol, ac felly efallai na fydd hyn yn lliniaru'r risg bosibl yn llwyr. Bydd CBAC yn darparu adnoddau hyfforddi ar gyfer canolfannau, ar ddull y canolfannau o asesu a sicrhau ansawdd, er enghraifft, yn ogystal ag ar sicrhau gwrthrychedd wrth asesu tystiolaeth

[23] Teachers' Bias Against the Mathematical Ability of Female, Black, and Hispanic Students (2020), Copur-Gencturck, Cimpian, Lubienski, Thacker.

	dysgwyr, a fydd yn cynnwys rheoli rhagfarn. Fel rhan o raglen hyfforddi CBAC, mae CBAC ar y cyd â Diverse Cymru, yn darparu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ganolfannau hefyd gael gafael ar ganllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o wefan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a hefyd i dderbyn hyfforddiant ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd dysgwyr yn gallu gofyn i ganolfannau adolygu eu Gradd dros dro a Bennir gan y Ganolfan ar sail barn a/neu ar y sail fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Mae ail gam y broses apelio yn caniatáu gwneud apêl i CBAC ynghylch gradd, ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Credir yn gyffredin bod bechgyn yn aml yn gwneud yn well mewn asesu terfynol, ac felly gallai canslo arholiadau ac asesiadau sy'n fwy seiliedig ar waith mewnol/parhaus effeithio'n anghymesur ar fechgyn[24]. Yn hanesyddol, cyflawnodd canran uwch o ferched na bechgyn y nifer gyfatebol o bump TGAU ar radd A *-C, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg [25]. Felly, ar gyfer y grwpiau hynny nad ydynt yn perfformio cystal eisoes, gallai bylchau cyrhaeddiad ledu, oherwydd y model asesu gwahanol eleni (graddau a bennir gan ganolfannau), a gwahanol lefelau o gefnogaeth ar gyfer dysgu o bell. Defnyddiwyd dull tebyg, sef graddau wedi'u hasesu gan ganolfannau, i ddyfarnu mwyafrif y graddau yn haf 2020. Derbyniodd dysgwyr gwrywaidd a benywaidd raddau uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y bylchau cyrhaeddiad rhwng y rhywiau ar gyfer graddau (diwygiedig) 2020 yn tueddu i fod yn lletach (yn fwy o blaid merched) i'r graddau uchaf ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch ac yn gulach (llai o blaid merched) i'r graddau canol ar gyfer Safon Uwch. Fodd bynnag, nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc[26]. Bydd gan ysgolion a cholegau brosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch graddau mor gyson â phosibl (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Bydd CBAC yn darparu'r sicrwydd ansawdd allanol i wirio bod y prosesau y mae ysgolion a cholegau yn eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn briodol. Yn ogystal, mae prosesau a allai helpu i sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth, a meithrin cyd-ddealltwriaeth o broses y Graddau a Bennir

[24] Gender difference in GCSE, Cambridge Assessment, Hydref 2015 (tudalen 32)

[25] A yw Cymru'n Decach? 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

[26] Dadansoddiad o Effaith ar Gydraddoldeb Haf 2020: TGAU, UG, a Safon Uwch, Cymwysterau Cymru, Hydref 2020

	gan Ganolfannau, gyda'r potensial i rannu arfer da, yn eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, fel y gall dysgwyr fod yn hyderus yn eu graddau. Bydd angen i brosesau sicrhau ansawdd gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb.
Cyfeiriadedd rhywiol	Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, gwyddys llai am brofiadau addysgol rhai grwpiau sydd mewn perygl yng Nghymru, megis dysgwyr Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT). Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw effaith ar ddysgwyr LGBT o'r opsiynau a ddadansoddwyd.
Priodasau a phartneriaethau sifil	Nid yw priodasau a phartneriaethau sifil, fel nodwedd warchodedig, yn berthnasol i ddysgwyr mewn ysgolion. Nodir y gall dysgwyr mewn colegau fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ond ni nodwyd unrhyw effaith benodol cyn belled ag y mae model y Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn y cwestiwn.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, ni wyddys cymaint am brofiadau addysgol rhai grwpiau sydd mewn perygl yng Nghymru, fel y rhai sy'n feichiog. Fodd bynnag, gallai dysgwyr yn y categori hwn fod mewn mwy o berygl o golli mwy o amser addysgu a dysgu yn y flwyddyn academaidd hon (oherwydd bod angen ynysu yn gynharach neu'n amlach). Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i athrawon wneud lefelau o addasiad (cyhyd ag y gellir dyfarnu gradd ar sail tystiolaeth o hyd).
Crefydd neu gred	Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, ni wyddys cymaint am brofiadau addysgol dysgwyr a allai rannu'r nodwedd warchodedig hon. Yn aml gall y rhai sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon hefyd brofi problemau sy'n gysylltiedig â hil, a phrofi anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly, gallai'r dysgwyr hyn brofi tarfu sylweddol ar eu dysgu, a chael anawsterau wrth gyrchu dysgu o bell. Gall y grŵp hwn gynnwys Cristnogion Catholig, Cristnogion Efengylaidd, Mwslimiaid, Tystion Jehofa, a'r grefydd Iddewig, er enghraifft. Yn ogystal, mae dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn aml yn grefyddol iawn. Bydd dysgwyr Mwslimaidd yn ymarfer Mis Sanctaidd Ramadan rhwng 13 Ebrill a 12 Mai eleni, ac yn ystod yr amser hwnnw, maent yn debygol o fod yn ymprydio o godiad y wawr tan iddi nosi. Efallai eu bod yn teimlo rhywfaint o anfantais o gymharu â'u cyfoedion. Efallai y bydd canolfannau wedi arfer darparu cefnogaeth yn ystod Ramadan ac yn debygol o fod â dull hyblyg o gasglu tystiolaeth asesu. Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, mae llai yn wybyddus am a allai dysgwyr â chredoau crefyddol penodol fod yn pryderu y bydd dyfarniadau a wneir gan ganolfannau yn cynnwys rhagfarn ar sail eu credoau crefyddol. Mae

	tystiolaeth yn gwahaniaethu ynghylch a yw hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol yn effeithiol, ac felly efallai na fydd hyn yn lliniaru'r risg bosibl yn llwyr. Fel rhan o raglen hyfforddi CBAC, mae CBAC, ar y cyd â Diverse Cymru, yn darparu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol. Bydd dysgwyr yn gallu gofyn i ganolfannau adolygu eu Graddau dros dro a Bennir gan y Ganolfan ar sail barn a/neu ar y sail fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Mae ail gam y broses apelio yn caniatáu gwneud apêl i CBAC ynghylch gradd, ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr preifat yn rhannu'r nodwedd warchodedig hon oherwydd nad ydyn nhw'n cael eu haddysgu yn yr ysgol oherwydd credoau crefyddol. Efallai bod rhai dysgwyr â chefndir crefyddol yn cymryd cymwysterau iaith leiafrifol, sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual. Mae'r dysgwyr hyn yn aml wedi'u cofrestru fel ymgeiswyr preifat. Mae bylchau mewn data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr preifat, ac felly mae'n anodd gwybod beth yw cyfran y dysgwyr yr effeithir arnynt. Byddai angen i gynlluniau sy'n ymddangos ar gyfer eu hasesu ystyried hyn ac ymdrin â hygyrchedd gwybodaeth am y dull o asesu a, gwybodaeth am fynediad at gyflwyno apêl a chyfleoedd i apelio. Bydd gan ysgolion a cholegau brosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch graddau mor gyson â phosibl (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Bydd CBAC yn darparu'r sicrwydd ansawdd allanol i wirio bod y prosesau y mae ysgolion a cholegau yn eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn briodol. Yn ogystal, mae prosesau a allai helpu i sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth, a meithrin cyd-ddealltwriaeth o broses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau, gyda'r potensial i rannu arfer da, yn eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, fel y gall dysgwyr fod yn hyderus yn eu graddau. Bydd angen i brosesau sicrhau ansawdd gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Bydd angen i ganolfannau hefyd gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a bydd canllawiau Cymwysterau Cymru yn atgoffa Canolfannau o'u rhwymedigaethau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ganolfannau hefyd gael gafael ar ganllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o wefan Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

Grwpiau eraill a nodwyd *(ee gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, daearyddol, incwm, statws preswylio (ymfudwyr) a grwpiau eraill sy'n profi anfantais a rhwystrau i fynediad, ee gofalwyr, y digartref).*	**Grwpiau economaidd-gymdeithasol** Gallai dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig fod yn fwy agored i COVID-19 a chael eu heffeithio'n fwy gan salwch teulu a phrofedigaeth[27], yn ogystal â phrofi dirywiad iechyd meddwl, a allai arwain at golli dysgu. Gallai hyn ofyn am lefelau addasu gan athrawon (cyhyd ag y gellir dyfarnu gradd ar sail tystiolaeth o hyd). Gallai dysgwyr hefyd ddioddef dirywiad i'w hiechyd meddwl a'u lles os ydynt yn rhan o deulu sydd wedi profi pryderon ariannol a phryderon am ddiogelwch swydd oherwydd effaith COVID-19. Efallai y bydd gan ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig amgylcheddau cartref sy'n ei gwneud hi'n anoddach ymgysylltu â dysgu ar-lein/o bell. Gallai hyn fod oherwydd adnoddau (er enghraifft, mynediad at liniaduron, data rhyngrwyd) sydd ar gael iddynt, yr amgylchedd ffisegol y maent yn byw ynddo a/neu allu rhieni/gofalwyr i annog a chefnogi addysgu gartref. Felly gallant fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio yn anghymesur gan golli amser addysgu a dysgu. Yn ogystal, mae dysgwyr yn debygol o fod mewn perygl sylweddol o golli diddordeb yn eu haddysg neu o gael eu gwahardd o'r ysgol, a allai effeithio ar iechyd meddwl a lles, yn ogystal â chyrhaeddiad addysgol[28]. Gallai dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig hefyd brofi problemau sy'n gysylltiedig â hil ac anabledd. Efallai na fydd gan ddysgwyr sy'n ddigartref, neu nad oes ganddynt fynediad i lety sefydlog, amgylchedd sy'n ffafriol i astudio. Gallent brofi ymyrraeth sylweddol i'w haddysg, oherwydd cau ysgolion a chyfyngiadau symud, a'i chael yn anodd cael gafael ar addysgu a dysgu o bell. Efallai mai mynediad cyfyngedig sydd ganddyn nhw hefyd i ffonau symudol, gliniaduron a data rhyngrwyd. Mae cysylltiad clir rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol ledled y DU. Mae hyd yn oed plant uchel eu cyflawniad o gefndiroedd teuluol difreintiedig yn llai llwyddiannus yn ddiweddarach mewn bywyd na'r rhai o deuluoedd mwy cefnog.

[27] https://www.theguardian.com/world/2021/feb/08/inequality-high-covid-toll-south-wales-valleys
[28] Gwahardd unigolion o addysg yng Nghymru: y gost gudd, Samariaid Cymru, Awst 2019

	Mae yna nifer o rwystrau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gyflawni canlyniadau addysgol cadarnhaol oherwydd natur dros dro sefyllfaoedd byw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a diffyg parhad o ran cefnogaeth. Mae gan rai gweithwyr proffesiynol ddisgwyliadau isel o'r grŵp hwn[29]. Dim ond hanner cymaint o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y nifer gyfwerth o bump TGAU ar radd A*-C, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg o gymharu â disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyrhaeddiad yn broblem yn arbennig i fechgyn gwyn sy'n derbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig. Mae lefelau uchel o waharddiad ar gyfer rhai grwpiau, gan gynnwys ar gyfer y rhai sydd mewn tlodi[30]. Felly gallai bylchau cyrhaeddiad ledu ar gyfer y dysgwyr hyn sydd eisoes wedi perfformio yn waeth na'u cyfoedion, oherwydd materion fel gwahaniaethau mewn cefnogaeth ar gyfer dysgu o bell[31]. Defnyddiwyd dull tebyg, sef graddau a asesir gan ganolfannau, i ddyfarnu'r mwyafrif o raddau yn haf 2020. Derbyniodd dysgwyr oedd yn gymwys ac nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim raddau uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y bylchau cyrhaeddiad cymhwysedd am brydau ysgol am ddim ar gyfer graddau 2020 (diwygiedig) yn tueddu i fod yn lletach (yn fwy o blaid dysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) i'r graddau uchaf ar gyfer TGAU ac UG ac yn gulach (llai o blaid dysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau sygol am ddim) i'r graddau canol ar gyfer Safon Uwch, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc[32]. **Grwpiau eraill a nodwyd** Oherwydd bylchau mewn tystiolaeth, gwyddys llai am brofiadau addysgol rhai grwpiau a nodwyd neu sydd mewn perygl yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yna faterion a allai effeithio ar rai grwpiau yn benodol. Er enghraifft:

[29] A yw Cymru'n Decach? 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hydref 2018
[30] A yw Cymru'n Decach? 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[31] Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hydref 2020
[32] Dadansoddiad o Effaith ar Gydraddoldebau Haf 2020: TGAU, UG, a Safon Uwch, Cymwysterau Cymru, Hydref 2020

	• Gallai gofalwyr fod mewn perygl o golli addysgu a dysgu yn sylweddol, naill ai oherwydd eu hiechyd eu hunain a'r angen i ynysu, neu oherwydd iechyd eu teulu neu'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gallant hefyd fod mewn perygl o dderbyn llai o gefnogaeth ac amser ar gyfer addysg gartref. • Gallai ffoaduriaid a cheiswyr lloches brofi anfantais sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a chefndir economaidd-gymdeithasol. Efallai na fydd dysgwyr sy'n geiswyr lloches yn gallu (neu wedi gallu) cofrestru mewn ysgolion oherwydd y broses o geisio lloches. Efallai na fydd gan ddysgwyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches amgylchedd sy'n ffafriol i astudio (neu hyd yn oed lety sefydlog) a gallent brofi tarfu sylweddol ar eu haddysg oherwydd cau ysgolion a chyfyngiadau symud, a'r gallu i gael mynediad at addysgu a dysgu o bell. Efallai mai mynediad cyfyngedig sydd ganddynt hefyd at liniaduron a data rhyngrwyd. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gartref (neu gymuned), efallai na fydd y dysgwyr hyn yn derbyn cefnogaeth briodol ar gyfer dysgu o bell gan eu rhieni neu eu gofalwyr. Gallai hyn hefyd ymwneud â hygyrchedd gwybodaeth am y dull o asesu ac, yn bwysig, gwybodaeth am fynediad at, a chyfleoedd i apelio. Efallai y bydd canolfannau'n gallu estyn allan at grwpiau cymunedol, a allai ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr a'u teuluoedd, a helpu canolfannau i gyfathrebu â dysgwyr a'u teuluoedd mewn ffordd glir a hygyrch. • Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg lai o fynediad at adnoddau Cymraeg ar-lein, a allai effeithio ar eu dysgu o bell. Yn ogystal, gallai rhieni nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg ei chael yn anodd darparu cefnogaeth briodol pan fydd canolfannau ar gau. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ganolfannau ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i ddysgwyr a'u rhieni i'w cynorthwyo. Ar gyfer yr holl ddysgwyr y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt, bydd athrawon yn gallu cymryd hyn i ystyriaeth wrth gynllunio eu hasesu ac yn eu dyfarniadau terfynol (cyhyd ag y gellir dyfarnu gradd ar sail tystiolaeth ddigonol o hyd). Mae yna ganfyddiad bod galluogi athrawon sy'n adnabod dysgwyr orau i lunio'r farn gyffredinol yn decach nag y gallai asesiadau allanol fod wedi bod, er y gallai eraill anghytuno yn enwedig os yw dysgwyr yn credu y bydd rhagfarn yn effeithio ar y dyfarniadau. Gellid darparu hyfforddiant a chyngor ar sut i osgoi rhagfarn i ganolfannau trwy sianeli priodol. Bydd CBAC yn darparu adnoddau hyfforddi ynghylch dull canolfannau o asesu a sicrhau ansawdd er enghraifft, yn ogystal ag ar sicrhau gwrthrychedd wrth asesu tystiolaeth dysgwyr, a fydd yn cynnwys rheoli rhagfarn. Fel rhan o raglen hyfforddi CBAC, mae CBAC ar y cyd â Diverse Cymru, yn darparu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol.

	Bydd dysgwyr yn gallu gofyn i ganolfannau adolygu eu Gradd dros dro a Bennir gan y Ganolfan ar sail barn a/neu ar y sail fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Mae ail gam y broses apelio yn caniatáu gwneud apêl i CBAC ynghylch gradd ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Bydd gan ysgolion a cholegau brosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch graddau mor gyson â phosibl (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Bydd CBAC yn darparu'r sicrwydd ansawdd allanol i wirio bod y prosesau y mae ysgolion a cholegau yn eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn briodol. Yn ogystal, mae prosesau a allai helpu i sefydlu rhwydwaith o gefnogaeth, a meithrin cyd-ddealltwriaeth o broses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau, gyda'r potensial i rannu arfer da, yn eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, fel y gall dysgwyr fod yn hyderus yn eu graddau. Bydd angen i brosesau sicrhau ansawdd gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Bydd angen i ganolfannau hefyd gydymffurfio â chanllawiau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd Cymwysterau Cymru yn atgoffa Canolfannau o'u rhwymedigaethau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ganolfannau hefyd gael gafael ar ganllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o wefan Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

3. **Beth yw ein gweithredoedd?**

Gweithred	**Nodwedd(ion) Gwarchodedig Perthnasol**	**Dyddiad**
Cymwysterau Cymru i gyhoeddi canllawiau asesu ar gyfer canolfannau ar gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	F1 09 Chwefror 2021 F2 04 Mawrth 2021 F3 Ebrill 2021 F4 Mai 2021
Cymwysterau Cymru i gadarnhau'r dull ar gyfer ymgeiswyr preifat sy'n ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr preifat dderbyn graddau, gan ystyried cyfle cyfartal.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	04 Mawrth 2021 Diwedd mis Mawrth Ebrill 2021

Cymwysterau Cymru i gynhyrchu canllaw mewn perthynas ag ymgeiswyr preifat.		
Canolfannau i gyfleu eu dull asesu i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn ffordd glir, dryloyw a hygyrch.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	Erbyn y Pasg
CBAC i ddarparu Fframweithiau Asesu Cymwysterau.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	05 Mawrth 2021
CBAC i ddarparu canllaw ar broses adolygu'r canolfannau.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	05 Mawrth 2021
CBAC i ddarparu canllaw ar y broses sicrhau ansawdd.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	05 Mawrth 2021
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gynhyrchu canllaw ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer canolfannau.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	15 Mawrth 2021
CBAC a Diverse Cymru i ddarparu hyfforddiant i ganolfannau ar osgoi rhagfarn anymwybodol.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	25 Mawrth 2021
Canolfannau i roi addasiadau rhesymol ar waith fel y bo'n briodol, ac os yw'n berthnasol i ofyn am gymorth gan athrawon anabledd arbenigol.	Anabledd	19-25 Mawrth 2021
Canolfannau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac ystyried canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhywedd, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	19-25 Mawrth 2021

y Sector Cyhoeddus ar gyfer cynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau.		
Bydd angen i ganolfannau ddarparu mecanwaith effeithiol i ddysgwyr ofyn am adolygiad o'u gradd dros dro gan ganolfannau.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhyw, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	19-25 Mawrth 2021
Cymwysterau Cymru i gadarnhau'r broses apelio a chynhyrchu canllaw.	Yr holl nodweddion gwarchodedig, ond yn arbennig, anabledd, hil, oedran, rhyw, crefydd a chred, a dysgwyr o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mai 2021

Atodiad B – Digwyddiadau Allweddol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (CCau) (TGAU, UG a Safon Uwch)

Mawrth 2020

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai arholiadau haf 2020 yn cael eu canslo.
- Cyfarwyddodd Llywodraeth Cymru Cymwysterau Cymru i roi sylw dyledus i'w polisi y dylai carfan dysgwyr cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau 2020 dderbyn graddau wedi'u cyfrifo.

Ebrill 2020

- Cyhoeddwyd ein hymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer haf 2020, gan gynnwys fersiwn hygyrch yn benodol ar gyfer dysgwyr.

Mehefin 2020

- Cyhoeddwyd ein Adroddiad Ar Benderfyniadau'r Ymgynghoriad, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Cyhoeddwyd ein Trefniadau safoni ar gyfer haf 2020 yng Nghymru.

Gorffennaf 2020

- Cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru baratoi i arholiadau fynd rhagddynt fel arfer yn haf 2021 er y byddai rhai addasiadau i ystyried unrhyw amser dysgu a fyddai'n cael ei golli.
- Cyhoeddwyd ein Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 a'n Amodau Arbennig ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2021.

Awst 2020

- SQA yn cael Cyfarwyddyd i bob dysgwr yn yr Alban gael graddau asesu canolfannau
- Ofqual yn cael Cyfarwyddyd y dylid dyfarnu i ddysgwyr yn Lloegr pa ganlyniad bynnag sydd uchaf o blith eu graddau amcangyfrifedig, ffug arholiadau neu arholiadau
- Y Gweinidog Addysg yn rhoi Cyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru, i roi sylw dyledus i bolisi newydd Llywodraeth Cymru na ddylai dysgwyr Safon Uwch gael canlyniad gradd mewn pwnc yn haf 2020 sy'n is na'u gradd UG gyfatebol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa polisi newydd Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni newidiadau a wnaed yn Lloegr, i gyhoeddi Graddau Asesu Canolfannau.
- Cymwysterau Cymru yn rhoi cyfarwyddiadau i CBAC roi graddau asesu canolfannau i ddysgwyr oni bai bod y radd gyfrifedig a gynhyrchwyd gan y model safoni, neu ganlyniad UG blaenorol, yn uwch.
- Cyhoeddwyd ein trosolwg o ganlyniadau UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch a throsolwg o ganlyniadau TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau CA4.
- Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer 2021.
- Cyhoeddwyd ein datganiad ystadegau swyddogol a oedd yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Anfonodd Cymwysterau Cymru gyngor i'r Gweinidog gydag argymhelliad y dylid dyfarnu graddau haf 2021 drwy gyfuniad o arholiadau ac asesiadau yn y dosbarth.
- Sefydlwyd Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i ddatblygu cynigion ymarferol a allai gyflawni polisi'r Gweinidog Addysg ar gymwysterau yn 2021.

Atodiad B – Digwyddiadau Allweddol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (CCau) (TGAU, UG a Safon Uwch)

Tachwedd 2020

- Gwnaeth y Gweinidog Addysg y penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2021.
- Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddiadau i Cymwysterau Cymru i'r perwyl hwn, gan gydnabod mai Cymwysterau Cymru fyddai'n gwneud ac yn gweithredu'r penderfyniad terfynol ynghylch cyfres arholiadau haf 2021 ac unrhyw drefniadau asesu amgen.

Rhagfyr 2020

- Y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn rhannu myfyrdodau a meysydd consensws gyda'r Gweinidog.
- Cyflwynwyd cyfnod clo lefel rhybudd 4 dros gyfnod y Nadolig.

Ionawr 2021

- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai ysgolion yn ailagor ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb yn dilyn gwyliau'r Nadolig.
- Cyflwynwyd cynigion diwygiedig gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni mewn llythyr i'r Gweinidog lle cynigiwyd y dylai athrawon bennu gradd briodol ar gyfer pob dysgwr ac y dylai hyn gyfrannu at Radd a Bennir gan Ganolfan ar gyfer pob dysgwr ym mhob cymhwyster yn haf 2021.
- Cyhoeddodd y Gweinidog addysg y safbwynt polisi y bydd cymwysterau dysgwyr sy'n sefyll TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yn cael eu dyfarnu trwy fodel Graddau a Bennir gan y Ganolfan yn haf 2021.
- Ymrwymodd Cymwysterau Cymru yn gyhoeddus i:

1. newid rheoliadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yng Nghymru i ganiatáu ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau
2. gweithio gyda CBAC i sefydlu fframwaith asesu i gefnogi canolfannau.

Chwefror 2021

- Amlinellwyd risgiau model Graddau a Bennir gan y Ganolfan i'r Gweinidog yn ein hymateb.

Mawrth 2021

- Cyhoeddwyd ein Canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2021 gyntaf.
- Cyhoeddwyd ein trefniadau penodol ar gyfer canolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat yn haf 2021.

Ebrill 2021

- Cyhoeddwyd ein trefniadau penodol ar gyfer ymgeiswyr preifat ar gyfer haf 2021.
- Gwnaethom gadarnhau y bydd addasiadau'n cael eu gwneud i asesiadau ar gyfer 2022.
- Sefydlwyd ein Grwp Cynghori i Ddysgwyr.

Mai 2021

- Cyhoeddwyd ein Gwybodaeth i Ganolfannau am adolygiadau gan ganolfannau ac apeliadau yn ystod haf 2021.

Mae ein dogfen Dyfarnu cymwysterau cyffredinol yn haf 2020 yn rhoi trosolwg manylach o'r digwyddiadau a fu'n ymwneud â threfniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2020. Bydd y ddogfen gyfatebol ar gyfer 2021 yn cael ei chyhoeddi ym mis Awst 2021.

Atodiad C - Digwyddiadau Allweddol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol (CGau)

Ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol sydd â model cyflawni ac asesu tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, mae penderfyniadau a chyhoeddiadau a nodir yn Atodiad B hefyd yn berthnasol.

Ebrill 2020

- Lansiwyd ymgynghoriad Ofqual ar y fframwaith rheoleiddio arfaethedig.
- Cyhoeddwyd addasiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Roedd y rhain yn cynnwys y gyfres newydd o gymwysterau i Gymru'n unig yn ogystal â chymwysterau etifeddol a ddarperir yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ond nid yn Lloegr.
- Cyhoeddwyd addasiadau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Awst 2020

- Rhai cyrff dyfarnu yn ailgyhoeddi canlyniadau ar gyfer rhai o'u Cymwysterau Galwedigaethol mewn ymateb i benderfyniadau i ddyfarnu graddau a aseswyd gan ganolfannau ar gyfer cymwysteru TGAU, UG a Safon Uwch.
- Cyhoeddwyd ymgynghoriad Ofqual ar estyniad i'r ERF ar gyfer 2020-21. Anogwyd rhanddeiliaid yng Nghymru i ymateb i'r ymgynghoriad.

Medi 2020

- Cyhoeddwyd addasiadau ar gyfer y gyfres newydd o gymwysterau cymeradwy ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant sydd ar gael i ddysgwyr o fis Medi 2020.
- Cyhoeddwyd addasiadau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru o fis Medi 2020.

Hydref 2020

- Cyhoeddwyd ein ERF Estynedig.

Rhagfyr 2020

- Ymestynnwyd y trefniadau presennol ar gyfer cymwysterau cymeradwy ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant tan 31 Awst 2021.
- Ymestynnwyd y trefniadau presennol ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru tan 31 Awst 2021.

Ionawr 2021

- Sefydlwyd grŵp Rhanddeiliaid Cymwysterau Galwedigaethol gennym i ganolbwyntio ar ddarparu, asesu a dyfarnu cymwysterau a reoleiddir yn 2021.
- Cyhoeddwyd ymgynghoriad Ofqual ar y trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol a thechnegol a chymwysterau cyffredinol eraill yn 2021 (gan gynnwys eu Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb).

Chwefror 2021

- Fe wnaethom ysgrifennu at gyrff dyfarnu Sgiliau Hanfodol i gadarnhau y gallai dysgwyr nad ydynt yn gallu sefyll eu hasesiadau o dan y trefniadau presennol dderbyn graddau a bennir gan y ganolfan.

Mawrth 2021

- Cyhoeddwyd papur penderfyniadau ymgynghori Ofqual ar y trefniadau Rheoleiddio ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol a Chymwysterau Cyffredinol eraill yn 2020-2021.
- Cyhoeddwyd Fframwaith Rheoleiddio Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol Wrth Gefn Ofqual.
- Cyhoeddodd Ofqual ymgynghoriad ar asesiadau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yn hydref 2021.

Ebrill 2021

- Cyhoeddwyd ein Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol (VCRF). Tra'n cyd-fynd â fframwaith Ofqual, mae'r VCRF yn cydnabod bod y trefniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn wahanol yng Nghymru a Lloegr.
- Mae trafodaethau'n dechrau gydag Ofqual ynghylch y trefniadau ar gyfer 2021-2022.

Mai 2021

- Ofqual yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad ar asesiadau ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yn hydref 2021. Ofqual a Cymwysterau Cymru yn diweddaru eu fersiynau o'r VCRF.

Mae ein dogfen Dyfarnu cymwysterau galwediaethol yn haf 2020 yn rhoi trosolwg manylach o'r digwyddiadau a fu'n ymwneud â threfniadau amgen ar gyfer asesu yn haf 2020. Bydd y ddogfen gyfatebol ar gyfer 2021 yn cael ei chyhoeddi ym mis Awst 2021.